

Merthyr Tudful: Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2015
Print ISBN 978 1 85760 324 8
Digidol ISBN 978 1 85760 326 2
© Hawlfraint y Goron 2015
WG21573

OGL

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau f3.0 o Drwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle nodir deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint, gan gynnwys Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Arolwg Ordnans, Arolwg Ordnans a Landmark Information Group Ltd, Cadw, Casgliad Francis Frith, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Old Merthyr Tydfil Alan George.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Merthyr Tudful: Deall Nodweddion Trefol

Cydnabyddiaethau

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) roddodd y rhan fwyaf o'r ffotograffau ar gyfer yr astudiaeth hon. Hoffai Cadw hefyd ddiolch i Jana Horák a John Davies, Adran Ddaeareg, Amgueddfa Cymru am eu help wrth baratoi adroddiad ar gerrig adeiladu ym Merthyr Tudful, a Carolyn Jacob, cyn Lyfrgellydd Cyfeiriadau a Gwybodaeth Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful.

Cynnwys

Cyflwyniad	5	Hen Dywodfaen Coch	48
Nodau'r Astudiaeth	5	Cronoleg Adeiladu	48
		Arddulliau Adeiladu	49
Cefndir Hanesyddol	6	Adeiladu Domestig	49
Cyn i Ddiwydiannu Gydio	6	Adeiladu Masnachol	52
Sylfeini Datblygiad Diwydiannol	12	Cysylltiadau Hanesyddol	53
Ehangiad Diwydiannol: Creu Tirwedd			
Ddiwydiannol	14	Ardaloedd â Nodweddion	54
Dirywiad y Diwydiant Haearn;		1. Canol y Dref: y Stryd Fawr	
Twf y Diwydiant Glo	19	a Phontmorlais	54
Trafnidiaeth	20	2. Thomastown a Phenyard	59
Metropolis y Meistri Haearn:		3. Twyniodyn, yn cynnwys Ysgubor	
Merthyr Tudful yn Dod yn Dref	24	Newydd a Phenyrrheol	63
Bywyd Dinesig, Gwleidyddiaeth		4. I'r De o Ganol y Dref:	
a Chymdeithas	35	Ardal Plymouth Street	65
Colled ac Adnewyddu:		5. Cyfarthfa: Parc a Gwaith Haearn	65
Yr Ugeinfed Ganrif	38	6. Williamstown, Cae Pant Tywyll	
		a Morgantown	68
Tirwedd Hanesyddol	41	7. Penyarden	70
Tirwedd Diwydiant	41	8. Georgetown ac Ynysfach	77
Patrymau Anheddu	42	9. Gorllewin Merthyr, yn cynnwys	
		Heolgerrig a Gellideg	78
Nodweddion Adeiladu	46		
Deunyddiau Adeiladu	46	Datganiad Pwysigrwydd	79
Tywodfaen Pennant	46		
Farewell Rock	47	Ffynonellau Dethol	80
Graean Gwaelodol	47		
Calchfaen Carbonifferaidd	47	Ôl-nodion	81

Rhestr o Fapiau tudalennau 84–94

- | | |
|--|---|
| 1. Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau'r Amgylchedd Hanesyddol | 7. Cyfarthfa: Parc a Gwaith Haearn (5) |
| 2. Pob Ardal â Nodweddion | 8. Williamstown, Cae Pant Tywyll a Morgantown (6) |
| 3. Canol y Dref: y Stryd Fawr a Phontmorlais (1) | 9. Penyarden (7) |
| 4. Thomastown a Phenyard (2) | 10. Georgetown ac Ynysfach (8) |
| 5. Twyniodyn, yn cynnwys Ysgubor Newydd a Phenyrrheol (3) | 11. Gorllewin Merthyr, yn cynnwys Heolgerrig a Gellideg (9) |
| 6. I'r De o Ganol y Dref: Ardal Plymouth Street (4) | |

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac ymdeimlad o frogarwch. Mae gan bob lle hanes unigryw, felly mae gan bob lle nodweddion hanesyddol unigryw, sy'n ased grymus o ran adfywio; gall ei gynnal gyflwyno buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae nodweddu trefol yn ddull a all ein helpu i ddefnyddio nodweddion hanesyddol i greu llyfdd cynaliadwy a nodedig ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw disgrifio ac egluro nodweddion hanesyddol trefi, rhoi ffocws i natur unigryw leol a helpu i wireddu gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cynllunio, adfywio a chadwraeth cadarnhaol, helpu i wella ansawdd

cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio nodweddion hanesyddol unigryw trefi unigol ac yn nodi amrywiaeth y nodweddion ynddynt. Mae'n edrych ar hanes tref ac yn nodi sut y caiff hyn ei fynegi mewn patrymau gofod a chysylltiadau ac mewn traddodiadau adeiladu, sy'n rhan hanfodol o nodweddion hanesyddol a natur unigryw leol.

Diben uniongyrchol yr astudiaeth hon yw llywio amryw fentrau adfywio ym Merthyr Tudful, yn cynnwys Menter Treftadaeth Trefluniau arfaethedig yng nghanol y dref. Mae'r astudiaeth hefyd yn archwilio nodweddion hanesyddol cryn dipyn o'r ardal gyfagos mewn dull integredig er mwyn gosod sylfaen ar gyfer gwaith cynllunio strategol yn ogystal â gwaith rheoli lleol.

*Gwaith Haearn
Cyfarthfa, Merthyr
Tudful (Old Merthyr
Tydfil Alan George).*





*Uchod: Ffotogyfosodiad
o'r Stryd Fawr,
Pontmorlais
(Hawlfraint y Goron
CBHC).*

Cefndir Hanesyddol

*'From an inconsiderable village, this place has risen
to be one of great commercial importance.'*¹

Cyn i Ddiwydiannu Gydio

Er ei bod bellach wedi'i diffinio gan ei datblygiad
hynod fel tref ddiwydiannol fawr yn ystod
y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae gan

Ferthyr Tudful sawl tarddiad cynharach.
Mae canfyddiadau hanesyddol gwasgaredig
o gefnwlad y dref yn awgrymu hanes hir
o anheddu ac roedd gan yr ardal bwysigrwydd
strategol yng nghyfnod y Rhufeiniaid. Sefydlwyd
caer yno, ar y llwybr rhwng Caerdydd ac
Aberhonddu, a chanfuwyd ei gweddillion
am y tro cyntaf yn ystod y gwaith o adeiladu
Tŷ Penydarren yn 1786. Adferwyd rhagor o'r caer
yn 1902 a 1903 pan sefydlwyd y cae pêl-droed.²



*Safai caer Rufeinig
ar safle'r cae pêl-droed
ar un adeg (Hawlfraint
y Goron: CBHC).*



Mae eglwys Santes Tudful yn safle canoloesol hysbys a gysegrwyd i Tudful, merch neu wyres Brychan Brycheiniog, a ddaeth o linach brenhinoedd de Cymru. Ceir traddodiad iddi gael ei merthyru yma, er mai safle cysegredig yw ystyr yr elfen 'Merthyr' o enw'r lle. Ni cheir unrhyw dystiolaeth gadarn o eglwys gynnar iawn, ond mae Charles Wilkins yn awgrymu bod Merthyr Tudful wedi'i sefydlu fel plwyf erbyn tua 1270.³

Mae portreadau o'r adeilad sy'n dyddio o gyfnod cyn y strwythur presennol yn awgrymu y gallai'r eglwys garreg gyntaf ddyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Dechreuodd yr eglwys wasanaethu fel cnewyllyn anheddiad bach: mae'n debyg bod trefniant damweiniol y ffyrdd a'r lleiniau o dir i'r de a'r dwyrain o'r eglwys, a gofnodwyd ar fapiau cyn y gwaith ailddatblygu yng nghanol yr ugeinfed ganrif, wedi goroesi o dwf anheddu cynnar yma.⁴



Arwddiad Cymraeg o'r Arddangosion (25 modur) — (i) a hawl o'r arddangosion yma yn ymddangos yn y Goron a Landmark Information Group Ltd. ©Cedric a hawl 2014



Uchod: Er mai adeilad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r eglwys a welun heddiw, saif ar safle strwythur cynharach ac mae'n gyswllt â Merthyr Tudful ganoloesol (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith: Mae'n debyg bod patrwm damweiniol y strydoedd o amgylch yr eglwys, a ddangosir yn y rhan hon o argraffiad cyntaf y map Arolwg Ordnans yn 1875, hefyd wedi goroesi o anheddiad cynnar.

Arferai'r Llys fod yng nghanol ystad fechan, y gellir ei holrhain yn ôl i'r bymthegfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ardal wledig ydoedd yn bennaf, fwy na thebyg yn cynnwys cyfres o ffermydd gwasgaredig, gyda rhai ohonynt yn sylfaen i ystadau rhydd-ddaliadol bach erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg. Roedd gan un o'r rhain rôl amlwg eisoes erbyn y bymthegfed ganrif a dathlwyd hyn mewn barddoniaeth. Y Neuadd oedd hon (y Llys yn ddiweddarach), sef canolbwynt ystad fechan a adeiladwyd gan y teulu Lewis, un o sawl teulu arwyddocaol a oedd yn dirfeddianwyr yn yr ardal.⁵ Roedd ystad y Llys yn ymestyn hyd at Nant Morlais, ac roedd yn ffinio â Chae Mari Dwn a Fferm

Penydarren tua'r dwyrain. I'r de o ystad y Llys roedd ystad Maerdy, gyda fferm hynafol sefydledig yn ganolbwynt iddi hithau hefyd. Roedd y tŷ, 'transformed from a farmhouse into dwellings of colliers', yn dal i fodoli ar ddiwedd y 1860au, ger pen gogleddol Plymouth Street.⁶

Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, sefydlwyd trefniadaeth gyffredinol o ddefnydd tir, lle'r oedd ffermydd gwasgaredig yn gysylltiedig â chaeau amgaedig ar y llethrau isaf a thir pori agored y tu hwnt iddynt.

Dangosir cyd-destun gwledig datblygiad diwydiannol a threfol yn glir yn y ffotograff cynnar hwn o'r awyr (Hawlfraint y Goron: CBHC).





*Dechreuodd yr adeilad
hwn yng Ngellideg fel
ffermdy o'r enw Tŷ Issa
(© Hawlfraint y Goron
(2015): Cadw,
Llywodraeth Cymru).*

Dim ond rhannau bach yn yr ardal o amgylch Merthyr Tudful sy'n dirwedd amaethyddol bellach. Cyfrifodd Wilkins fod 93 o ffermydd yn y plwyf yn 1700, ond nododd 'time, aided by tipping, has done much to reduce the number'.⁷ Ceir gwybodaeth am hen ffermdai a oedd wedi goroesi yng nghyffiniau'r dref gan Pedler yn 1930,⁸ a goroesodd llawer ohonynt hyd at ganol yr ugeinfed ganrif. Heddiw, erys rhai daliadau amaethyddol o hyd ar gyrion yr ardal drefol tua'r dwyrain a'r gorllewin; efallai mai'r hen dŷ yng Ngellideg, a arferai fod yn ffermdy (Tŷ Issa), yw'r enghraifft bwysicaf ohonynt. Cedwir enwau rhai eraill mewn enwau ardaloedd a strydoedd modern, fel Cae Mari Dwn i'r gogledd o Thomastown, a oedd yn un o'r ffermydd a oedd yn dyddio o'r adeg cyn y cyfnod diwydiannu, Cae'r Wern yn Ynysfach, a Rhyd y Car.

Ceir cyfeiriadau at batrymau o ddefnydd tir o'r adeg cyn y cyfnod diwydiannol hefyd mewn sawl enw lle. Cawn ein hatgoffa bod coetir yn amlwg ar un adeg mewn enwau fel Cefn Coed y Cymmer a Gellideg, ac mae'r gair cae i'w weld hefyd mewn enwau llefydd fel Cae Pant Tywyll, a cheir sawl amrywiad ar yr enw Pen y Coedcae. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cynllun ffyrdd modern yn adlewyrchu patrymau caeau a'i rhagflaenodd, er enghraifft, mae Argyle Street a Summerhill Place i'r dwyrain o Thomastown yn dilyn hen ffin caeau, ac mae'r ardal o amgylch West Grove ym Mhenydarren yn ffitio i mewn i hen gae.

Yn y pen draw, chwaraeodd amaethyddiaeth rôl eilradd i ddiwydiant, a manteisiwyd ar dirddaliadaethau yn bennaf oherwydd gwerth eu hadnoddau mwynol. Rhoddodd y prydles mwynau a gefnogodd y gwaith o ddatblygu'r diwydiant haearn hawliau ar gyfer adnoddau o dan y ddaear, a byddai'r meistri haearn hefyd yn gosod y ffermydd ar brydles neu'n eu prynu eu hunain fel modd o reoli arwyneb y tir a manteisio arno. Nododd Wilkins 'about twenty farms were swallowed up by the Cyfarthfa works'.⁹ Cadwyd rhai ffermydd ar gyfer amaethyddiaeth ond cawsant eu haddasu yn ddaliadau mwy effeithlon a allai fynd i'r afael yn well ag anghenion poblogaeth a oedd yn tyfu. Mae Fferm Gurnos a Fferm Pandy yn enghreifftiau da o ffermydd a ail-fodelwyd ar gyfer ystad Cyfarthfa ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*Ni ddisodlwyd
amaethyddiaeth yn
llwyr gan ddiwydiant:
parhaodd Fferm Pandy
i fod yn ddefnyddiol
i'r teulu Crawshay,
a ailfodelodd yr
adeiladau ar ddechrau'r
bedwaredd ganrif ar
bymtheg (Hawlfraint
y Goron: CBHC).*



*Fferm Gurnos, fel y'i
darluniwyd gan Penry
Williams, 1802–85
(Atgynhyrchwyd y
ffotograff gyda chaniatâd
caredig Amgueddfa
ac Oriel Gelf Castell
Cyfarthfa, Merthyr
Tudful).*



*Fferm Gurnos o'r awyr
(Haulfaint y Goron:
CBHC).*



Tua'r gogledd y goroesodd tirwedd amaethyddol orau (hyd nes i ddatblygiad trefol ddechrau tresmasu ami ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg), o amgylch Castell Cyfarthfa a Thŷ

Penydarren, lle y cadwodd y ddwy ystad gwaith haearn dirwedd o gaeau a phlanhigfeydd gyda thai a ffermydd gwasgaredig, a gofnodir ar yr argraffiad cyntaf o fap Arolwg Ordnans 1875.

Gwelwyd tirwedd amaethyddol i'r gogledd o'r dref hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg



Sylfeini Datblygiad Diwydiannol

Manteisiwyd ar adnoddau mwynol yr ardal ers yr unfed ganrif ar bymtheg o leiaf, a chofnodwyd safleoedd gwaith haearn cynnar ym Mhontygwaith, Troedyrhiw, Dyffryn a Blaencanaid.¹⁰ Fodd bynnag, roedd y gweithgarwch diwydiannol cynnar hwn yn fach o ran maint a gellid ei gynnal mewn patrwm gwledig o ddefnydd tir yn y bôn hyd nes y gwelwyd llawer mwy o fuddsoddi a manteisio yn ail hanner y ddeunawfed ganrif.

Un o'r rhagofynion ar gyfer datblygiad diwydiannol sylweddol oedd daeareg lle'r oedd y deunyddiau crai oedd yn angenrheidiol i gynhyrchu haearn — glo, haearnfaen a chalchfaen — ar gael ac yn hygyrch. Roedd yr olyniaeth benodol o greigiau ym Maes Glo De Cymru yn cynnwys yr holl ddeunyddiau crai oedd yn angenrheidiol i gynhyrchu haearn: Calchfaen Carbonifferaidd (y fflwcs yn y broses fwrw), Grut Melinfaen (ffynhonnell tywod silica ar gyfer gwneud brics) a glo a haearnfaen. Yr adnoddau hyn oedd agosaf at yr wyneb, felly roeddent ar gael yn haws, yng ngogledd y rhanbarth. Roedd hygyrchedd yn well byth yn ardal Merthyr Tudful gan fod symudiad afon Taf a'i llednentydd yn amlygu'r strata, a hefyd yn rhoi ffynhonnell barod o bŵer dŵr.



Chwareli calchfaen ym Morlais (uchaf) a Faenor (isaf) (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Roedd angen hawliau dros dir a chyfalaf i fuddsoddi er mwyn manteisio ar y deunyddiau crai toreithiog hyn. Roedd yr entrepreneuriaid a sefydlodd y pedwar gwaith haearn mawr yn ardal Merthyr Tudful i gyd yn dod o Loegr, gan ddod â chyfalaf o Loegr gyda hwy, ac roedd tirdaliadaeth helaeth yn ganolbwynt i bob un o'r gweithfeydd. Roedd meddiannu tir fel hyn yn hanfodol: roedd popeth o'r cyflenwad dŵr i waredu gwastraff a chludo deunyddiau crai a chynhyrchion gorffenedig yn defnyddio'r tir.

Dowlais oedd y gwaith haearn mawr cyntaf i'w sefydlu yma. Cafodd Thomas Lewis hawliau mwynau yn 1757, ond y teulu Guest a gymerodd reolaeth ohono yn 1759 a hwy oedd yn bennaf cyfrifol am y ffaith i'r gwaith ddatblygu mor gyflym. Roedd Dowlais yn arwain technoleg gwneud haearn am gryn amser; dyma'r gwaith cyntaf i gyflwyno pŵer stêm ac aeth ymlaen i arloesi'r defnydd o broses Bessemer ar gyfer cynhyrchu dur yn 1865. Rhoddodd y brydles wreiddiol o ystad ieirll Penfro (rhan o ystad Bute) hawliau mwynau dros leiniau eang o dir ar lethrau gorllewinol Comin Merthyr i'r gogledd a'r dwyrain o'r gwaith. Cefnogodd y brydles hon, oedd ond yn £26 y flwyddyn, dwf y gwaith haearn mwyaf yn y byd yn 1846, pan oedd yn cyflogi 7,000 o bobl. Roedd ei elw yn ystod y flwyddyn ganlynol yn £172,746. Sefydlwyd gwaith Ivor fel cangen

i Ddowlais yn ystod blynyddoedd ffyniannus y 1830au.

Cyfarthfa fyddai'r gwaith haearn mawr arall yn yr ardal, a sefydlwyd yn 1765 gan Anthony Bacon, ond a gaffaelwyd gan Richard Crawshay yn y pen draw yn 1794. Erbyn 1798, roedd tua £100,000 eisoes wedi cael ei fuddsoddi yng Nghyfarthfa.¹¹ Yn dilyn hyn, sefydlodd Cyfarthfa hefyd waith eilaidd yn Ynysfach yn 1801, a hwn oedd y gwaith mwyaf ym Mhrydain yn 1803. Arloesodd broses chwythu Cort o 1784 a defnyddiodd bŵer stêm o'r 1780au. Roedd y brydles wreiddiol yn cynnwys 4,000 erw (1,618.7 hectar) o dir — llain tua 8 milltir o hyd a 5 milltir o led (13km wrth 8km) — am rent o £100 y flwyddyn o ystad Dinefwr. Trafodwyd telerau'r brydles 99 o flynyddoedd yn 1765 i gyflenwi'r gwaith haearn yn unig, a chwblhawyd y ffwrnais gyntaf yn 1767. Yn ogystal â'r brydles fwynau, rhaid oedd rheoli'r ffermydd a weithiai arwyneb y tir hefyd, a byddai Bacon a'i olynwyr yn prynu'r ffermydd bach lle bynnag y gallent. Roedd y rhan fwyaf o'r tir hwn i'r gorllewin o afon Taf ac roedd yn darparu'r mwyn haearn a'r glo ar gyfer y ffwrneisi, yn ogystal â rhywfaint o'r cerrig adeiladu; daeth y calchfaen o'r Gumos i'r gogledd. Pan fu farw Richard Crawshay yn 1810, ef oedd un o filiwnyddion cyntaf Prydain.

Gwaith Haearn Cyfarthfa, fel y'i darluniwyd gan William Pamplin rhwng 1791 a 1800 (Atgynhyrchwyd y ffotograff gyda chaniatâd caredig Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful).





Gwaith Haearn Penydarren, fel y'i darluniwyd gan John George Wood yn 1811 (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Sefydlwyd Gwaith Haearn Plymouth yn 1763 gan Isaac Wilkinson a John Guest ar dir a brydleswyd gan iarll Plymouth. Cymerodd Anthony Bacon reolaeth ohono yn 1765 a'i werthu i Richard Hill yn 1783, a pharhaodd yn ei deulu hyd at 1862. Roedd ganddo ddaliadau ar ddwy ochr afon Taf: ar Fynydd-cilfach-yr-encil i'r dwyrain (o Gwm Blacks a Chlyn-mil i Droedyrhiw) ac yn y Gethin a'r Graig i'r gorllewin.

Yn olaf, sefydlwyd gwaith Penydarren gan Francis Homfray yn 1784. Roedd yn dibynnu ar brydles o Fferm Penydarren oedd yn 80 erw (32.3 hectar), y dywedwyd ei bod yn llawn glo a mwyn haearn. Yn y pen draw, wrth weithio ar y cyfoeth hwn, 'all the hedges and fences of the farm have been destroyed by these operations, and the entire surface has been cut up and rendered useless for agricultural purposes.'¹² Hon oedd yr ardal o amgylch Incline Top, Penyard a Chae Mari Dwn. I'r gwrthwyneb, parhaodd y tir i'r gogledd o'r gwaith haearn i gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol hyd nes iddo gael ei ddatblygu ar gyfer tai ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ehngiad Diwydiannol: Creu Tirwedd Ddiwydiannol

Roedd y pedwar gwaith haearn hyn yn sylfaen ar gyfer creu tirwedd ddiwydiannol a threfol, a datblygiad anhygoel cymdeithas drefol ddiwydiannol dros y ganrif nesaf. Roedd eu hallbwn cyfunol yn anferth ac roedd angen gweithgarwch ar raddfa fawr, o ennill deunyddiau crai i ddosbarthu nwyddau gorffenedig. Roedd y rhanbarth yn cynhyrchu hanner allforion y DU erbyn 1827 a pharhaodd y cynnyrch i gynyddu dros sawl degawd. Er enghraifft, roedd Cyfarthfa yn cynhyrchu 65 tunnell fesul ffwrnais yn 1819, 80 tunnell erbyn 1845 a 120 tunnell erbyn 1857. Roedd y gweithfeydd yn enfawr ynddynt eu hunain — erbyn 1835, roedd y safle yn Nowlais yn cwmpasu 40 erw (16.2 hectar) — ac roedd y defnydd a wnaent o ddeunyddiau crai, yn ogystal â'r symiau aruthrol o wastraff yr oeddent yn ei gynhyrchu, yn cael effaith anferth ar y dirwedd o amgylch.¹³

Wrth i'r gweithfeydd haearn ehangu, felly hefyd eu defnydd o ddeunyddiau crai. Er enghraifft, wrth



Dangosir maint anferth Gwaith Haearn Dowlais yn y ffotograff cynnar hwn o'r awyr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Crëodd y broses o wneud haearn symiau anferth o wastraff, a ddaeth yn nodwedd amlwg o'r dirwedd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Y gwaith haearn yng Nghyfarthfa, tua 1900 (Old Merthyr Tydfil Alan George).

i Gyfarthfa barhau i dyfu o un ffwrnais chwyth yn 1767, i ddwy erbyn 1786, chwech erbyn 1807 (yn cynnwys dwy yn is-waith Ynysfach), a naw erbyn 1824, cynyddodd y galw hefyd ar y dirwedd gloddiol. Yn ogystal, cafodd cymhwyso'r broses chwythu yn llwyddiannus ar gyfer cynhyrchu haearn gyr yn 1784 effaith ddramatig ar yr allbwn. Yn ystod y cyfnod hwn, ar gyfer pob tunnell o haearn crai a wnaed yn y gweithfeydd haearn, roedd angen tair tunnell o lo (wedi'i wneud yn gôc). Ar gyfer proses gynhyrchu o'r maint hwn, roedd angen tunnell o galchfaen a thair tunnell a hanner o haearnfaen hefyd. Yna, ar gyfer y 12 tunnell o haearn crai a gâi ei buro bob wythnos, roedd angen 12 tunnell arall o lo.¹⁴ Yn ei anterth yn 1864, roedd gwaith Cyfarthfa yn cynhyrchu 50,000 tunnell o haearn bob blwyddyn.¹⁵



Mae Trystan Edwards yn dyfynnu ffynhonnell o tua 1830 sy'n nodi y cynhyrchwyd 66,500 tonn o haearn yn y pedwar gwaith y flwyddyn honno. Roedd y broses gynhyrchu yn defnyddio 500,000 tonn o lo, 280,000 tonn o haearnfaen a mwy na 100,000 tonn o galchfaen.¹⁶ Daeth yr holl ddeunyddiau crai hyn o fewn ychydig filltiroedd i'r gweithfeydd eu hunain.

Dde: Manylion Gwaith Haearn Cyfarthfa yn dangos yr olwyn ddiwr fawr, gan William Pamplin rhwng 1791 a 1800 (Atgynhyrchwyd y ffotograff gyda chaniatâd caredig Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful).

Er mwyn cyflenwi deunyddiau i fwydo diwydiant a oedd yn awchu am adnoddau dros tua 150 o flynyddoedd roedd angen lefelau cynyddol o ddyfeisgarwch technolegol a buddsoddiad cyfalaf anferth. Wrth gloddio am lo, er enghraifft, disodlwyd technegau cynnar, fel gweithfeydd wyneb (clytio a sgwrio), yn gyflym gan waith gan ddefnyddio lefelau, a ddisodlwyd yn ei dro gan waith cloddio gan ddefnyddio siafftau. Sefydlwyd y pyllau gyntaf ar dir Cyfarthfa yn y 1820au a 1830au, ac roeddent yn cael eu defnyddio'n eang erbyn y 1850au. Erys tystiolaeth o'r holl brosesau hyn yn y dirwedd o amgylch Merthyr Tudful o hyd, yn arbennig i'r gorllewin, lle mae llawer o'r mwynau a gloddiwyd ar gyfer gwaith Cyfarthfa wedi goroesi.

Roedd dŵr hefyd yn hanfodol i waith haearn llwyddiannus. Fe'i defnyddiwyd mewn gweithrediadau cloddio i ddechrau er mwyn sgwrio'r pridd i ffrwd i ddatgelu'r graig oddi tano ac yn ddiweddarach i godi glo a haearnfaen gan ddefnyddio balans dŵr. Defnyddiwyd dŵr hefyd yn y gweithfeydd haearn. Roedd yr holl weithfeydd yn defnyddio pŵer dŵr i ddechrau ac er bod Dowlais a Chyfarthfa wedi cyflwyno pŵer stêm yn y 1780au, roedd Cyfarthfa yn dal i ddefnyddio pŵer dŵr uniongyrchol yn ogystal â stêm yn 1874. Roedd Gwaith Haearn Plymouth yn gwbl ddbynol ar bŵer dŵr hyd at y 1840au. Cymerai ddŵr o afon Taf mewn camlas fwydo (yr oedd ei llinell wedi goroesi hyd nes y gwnaed gwaith ailddatblygu diweddarach) a redai o gored islaw'r bont, yna i'r dwyrain o Goedraw ac i'r de-orllewin o Plymouth


Street. Roedd dibyniaeth ar ddŵr yn cyfyngu ar faint y gwaith; yn hytrach, ehangodd drwy ddatblygu ar dri safle, gyda gweithrediadau ar wahân yn Olyn Pentrebach a Ffwmeisi Dyffryn. Cyfrannodd problemau o ran rheoli crynhoed dŵr at allu cyfyngedig gweithfeydd Plymouth a Phenydarren o gymharu â Chyfarthfa a Dowlais.



Roedd angen buddsoddiad a dyfeisgarwch er mwyn cynnal cyflenwad dŵr a'i sianelu i'r man lle'r oedd ei angen, fel y dangosodd System Draenio Rhydd gymhleth Dowlais. Dim ond yn rhannol y mae'r system hon wedi goroesi bellach, ond mae'r cynlluniau rheoli dŵr oedd yn gysylltiedig â Chyfarthfa wedi goroesi'n well. Mae hyn yn cynnwys y ffrwd, a gariai ddŵr o fan yn uwch i fyny'r afon ar afon Taf Fechan drwy lyn y parc, a Phont y Cafnau, a gariai ddŵr a thramffordd i'r gwaith ar draws afon Taf. Adeiladwyd y bont tua 1793 er mwyn disodli rhagflaenydd a wnaed o bren. Tua'r gorllewin o afon Taf, câr'r gweithfeydd eu gwasanaethu gan rwydwaith o ffrydiau a chronfeydd dŵr ac roeddent hefyd yn cyflenwi camlesi Cyfarthfa a Morgannwg.

Yn anochel, arweiniodd y defnydd o ddeunyddiau crai ar raddfa oedd yn ddigonol i gynnal lefelau allbwn uchel a chynyddol at symiau mawr o wastraff, felly roedd angen tir hefyd i wasanaethu'r dasg achlysurol, ond helaeth, o domennu. Mae llawer o domennydd wedi cael eu hadfer, ac adeiladwyd dros rai ohonynt, ond, mewn rhai ardaloedd o leiaf, maent yn elfen bwysig iawn o'r dirwedd o hyd.

Adeiladwyd Pont y Cafnau i gario dŵr a ddaeth gyda'r ffrwd o afon Taf Fechan i waith haearn Cyfarthfa. Rhedai tramffordd o'r chwareli yn y Gurnos uwchlaw'r cafn dŵr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Roedd llawer o'r adnoddau yr oedd eu hangen i gynnal Gwaith Haearn Cyfarthfa i'w cael ar dirwedd gorllewin Merthyr



*Olion tirwedd
ddiwydiannol
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Pwll Abercanaid yn 1896
(Old Merthyr Tydfil
Alan George).*



Dirywiad y Diwydiant Haeam; Twf y Diwydiant Glo

Roedd y gweithfeydd haeam yn nodwedd amlwg o'r dirwedd ac economi a chymdeithas Merthyr Tudful am gryn amser, ond, yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd llawer o'r deunyddiau crai lleol naill ai'n mynd yn brin neu'n mynd yn anos i'w cyrraedd. Parhaodd Cyfarthfa a Dowlais i fuddsoddi mewn technolegau newydd — Dowlais oedd y cyntaf i gyflwyno proses gwneud dur yn 1865, ac yna Cyfarthfa yn 1884 — ond ni allent gynnal y sefyllfa aruchel a fu ganddynt ar un adeg.¹⁷ Nid oedd mwynau lleol yn addas ar gyfer cynhyrchu dur, ac felly roedd yn rhaid mewnforio'r deunydd crai hanfodol. Nid oedd y lleoliad mewndirol ac uchel yn fantais mwyach heb hunandibyniaeth ar ddeunyddiau crai, ac wynebodd gweithfeydd haeam Merthyr Tudful gystadleuaeth lem o fannau eraill.

Mor gynnar â diwedd y 1840au, roedd ardaloedd eraill gyda mynediad ffafriol i'r arfordir yn dod i'r amlwg: cymoedd Abertawe, Castell-nedd a'r Gwendraeth, a'r ardal uwchlaw Castell-nedd a Phort Talbot.¹⁸ Ni allai rhai cwmnïau fforddio cynnal y lefelau o fuddsoddiad oedd eu hangen i oroesi yn yr hinsawdd hon: caeodd gwaith Penydarren ac fe'i gwerthwyd i Ddowlais yn 1859; fe'i gadawyd i fynd â'i ben iddo ac roedd yn adfail

erbyn y 1870au. Daeth y safle yn orsaf tramiau ac adeiladwyd rhywfaint o dai (Trevithick Street) arno hefyd. Caeodd Plymouth yn yr 1880au. Ar ôl anghydfodau diwydiannol niweidiol a chyfnod o gau dros dro yn y 1870au, ailagorodd Cyfarthfa fel gwaith dur yn 1884; unodd y cwmni â Dowlais yn 1902, ond caeodd gwaith Cyfarthfa i bob pwrpas yn 1910 ac, ar ôl cyfnod byr ffyniannus adeg y rhyfel, rhoddwyd y gorau iddo yn 1921.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori yw dirywiad y gwaith haeam, gan fod yr ystadau mwynau oedd yn gysylltiedig â'r gwaith haeam hefyd yn ffynhonnell werthfawr o lo. Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, canolbwyntiwyd ar gloddio am lo a dominyddodd yr economi ddiwydiannol leol i mewn i'r ugeinfed ganrif. Roedd ystad mwynau Plymouth yn cynnwys sawl pwll glo mawr yn y Dyffryn a'r Graig; ymysg y pyllau glo modern ar ystad Cyfarthfa roedd Castle, Abercanaid a Gethin, ac ar ystad Dowlais, roedd Fochriw a Bedlinog.¹⁹

Mae'n debyg mai'r economi a oedd yn seiliedig ar lo a gefnogodd y gwaith ehangu ac adnewyddu helaeth a welwyd yn y dref a'r cyffiniau ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Mae llawer o gymeriad canol y dref a rhai o'r maestrefi yn adlewyrchu'r cyfnod hwn yn hanes diwydiannol yr ardal, a gaiff ei anwybyddu'n aml.



Adeiladau canol tref cain o oes y glo (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Trafnidiaeth

*'The transmission of the productions of this district is facilitated by the Glamorgan Canal... the Taff Valley Railway to Cardiff and the South Wales to Cardiff, Newport, Swansea and Milford Haven are other efficient modes of conveyance, both for passengers and for the productions of this valuable mineral district.'*²⁰

Er i'r diwydianwyr cynnar etifeddu a defnyddio rhwydwaith o lwybrau trafniadaeth traddodiadol ar draws yr ardal, addaswyd pob agwedd ar drafniadaeth yn gyflym i anghenion y diwydiant, p'un ai drwy wella llwybrau a etifeddwyd, neu drwy greu rhai newydd.

Ymhlith y ffyrdd cynnar roedd y llwybr o'r dwyrain i'r gorllewin o Ferthyr Tudful i Abernant drwy Heolgerrig, a llwybr drwy Gellideg, y codwyd tollborth arno yn ddiweddarach fel y llwybr rhwng Merthyr Tudful a Chastell-nedd. Roedd un prif lwybr, a redai o'r gogledd i'r de, yn dilyn y tir uchel i'r dwyrain o Ferthyr Tudful rhwng Pontsticill a Llancaiach. O Bencoedivor, roedd ffordd yn ymdroelli i lawr i Ferthyr Tudful, yn cyd-fynd â llinell Galon Uchaf Road, Gwaelodygarth Road a'r Stryd Fawr. Roedd Twynyrodyn Road yn llwybr traddodiadol arall a gysylltai'r gefnffordd hon â chraidd hanesyddol yr aneddiadau o amgylch yr eglwys. Roedd llwybr lefel isel hefyd ar ochr ddwyreiniol afon Taf rhwng Cefn Coed y Cymmer a Phontygwaith. Mae'n debyg bod y llwybr hwn yn parhau tua'r gogledd i Aberhonddu a thua'r de i Gaerdydd — mae Brecon Road a Plymouth Street yn nodi'r llinell hon, a chodwyd tollborth ar y ddwy ffordd yn y pen draw. Roedd yr hen ffyrdd hyn yn ffurfio fframwaith ar gyfer

anheddiad ac mae ganddynt eu patrymau datblygu nodedig eu hunain. Yn ogystal â'r ffyrdd drwodd hyn, roedd cyfres o lonydd lleol yn gwasanaethu fferymydd ac aneddiadau gwasgareddig. Mae rhai o'r rhain wedi goroesi yn y patrwm strydoedd modern er enghraifft, Pantyffyn Road (Mountain Hare), Gwaelodygarth Road, Galon Uchaf Road a Gwaunfarren Road, Penydarren.

Gwnaed gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith ffyrdd yn rhannol drwy nawdd y meistri haearn. Adeiladodd Anthony Bacon lwybr o Ferthyr Tudful i Gaerdydd yn 1767. Roedd y llwybr hwn yn dilyn dyffryn afon Taf ar yr ochr ddwyreiniol ac mae'n debyg ei fod yn welliant o gymharu â'r llwybr cynharach tua'r de o Gefn Coed y Cymmer. Hon oedd tollffordd Plymouth ar ôl Deddf Tyrpeg 1771.


Gwnaed gwelliannau eraill hefyd. Yn 1795, rhoddodd y Glamorganshire Navigation Canal Company ganiatâd i Bont Jackson, a adeiladwyd i gludo tramffordd o'r gwaith haearn yn Nowlais i'r gamlas, gael ei defnyddio i gludo ffordd newydd ar draws yr afon. Mae'n debyg bod hwn yn aliniad newydd ar gyfer y ffordd o Abernant i Ferthyr Tudful drwy Heolgerrig, a oedd bellach yn parhau tuag at Ddowlais. Roedd y llwybr hwn yn croesi'r ffordd o Ferthyr Tudful i Aberhonddu, y codwyd tollborth ami yn 1831 — mae tolldy Grawen a adeiladwyd yn 1842 yn atgof o'r hanes hwn. Gwnaed gwelliannau i'r man croesi gwreiddiol dros yr afon hefyd pan adeiladwyd pont haearn (ychydig i'r de o safle'r bont fodern ger gwaelod Castle Street) yn 1799–1800 yn lle hen bont garreg a gafodd ei dinistrio mewn llifogydd. Fe'i cynlluniwyd gan Watkin George, a thalwyd amdani gan William Crawshay.²¹ Cafodd y bont ei dymchwel yn 1963 gyda'r bwriad o'i hatgyweirio ryw ddydd.

Mae tolldy'r Grawen wedi goroesi o waith gwella ffyrdd a wnaed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Yn y cyfamser, cyflwynwyd ffurfiau trafniadaeth newydd hefyd i ddiwallu anghenion y diwydiant. Roedd rhai o'r rhain yn hollol leol, gyda'r nod o symud deunyddiau (yn cynnwys dŵr) o'u ffynhonnell i'r man yr oedd eu hangen. Roedd rhwydwaith cymhleth o dramffyrdd a llwybrau yn ymlwybro drwy'r dirwedd lle bynnag y cafwyd gweithfeydd mawr. Roedd y llwybrau trafniadaeth lleol hyn yn rhan hanfodol o weithrediadau diwydiannol. Roedd eu pwysigrwydd, ynghyd â'r pellteroedd y symudwyd deunyddiau crai weithiau, yn golygu bod rhai o'r llwybrau trafniadaeth hyn yn brosiectau peirianyddol uchelgeisiol sydd wedi

Prif Lwybrau Trafnidiaeth Hanesyddol



Aggredidur y map hon o ddiwydd y'r Arloeg Orllewin gyda rhestrad Arloeg Orllewin ar rai Rheolwr Llyfr E) Plawrlyb © Hwffryst y Goron. Mae significhu heb ganiatâd yn tiri Hwffryst y Goron a gall hyn arwain at erlyriad neu achos sâl. Llywodraeth Cymru, Rhif Treiddid, 100017916 (2014)

Dde: Mae'r llwybr cerdded uchel gyferbyn â'r Theatre Royal yn dilyn llinell tramffordd a redai o Ddowlais a gwaith haearn Penydarren i Gamlas Morgannwg (Haulfaint y Goron: CBHC).



Isod: Gwnaed y gofeb i goffáu'r tro cyntaf i locomotif stêm redeg ar gleddrau yn 1804 o'r deunyddiau a adferwyd o hen dramffordd Penydarren (Haulfaint y Goron: CBHC).



cael effaith barhaus ar y dirwedd. Mae Camlas Cyfarthfa yn enghraifft gynnar o hyn: roedd yn cysylltu'r gwaith haearn â gweithfeydd tua'r de a gallai fod wedi rhoi mynediad uniongyrchol i lefelau ar gyfer llwytho cychod mwd. Bu'n weithredol o'r 1770au. Gellir olrhain rhan o'i lwybr o hyd tua'r gorllewin o'r A470.

Arweiniodd y cynnydd yn yr allbwn o'r gweithfeydd haearn at ofnion o ran symud nwyddau o'r ardal, na allai ffurfiau trafnidiaeth traddodiadol eu bodloni'n rhesymol. Crëodd hyn gymhelliant i fuddsoddi mewn ffurfiau newydd o drafnidiaeth. Dyfeisiwyd cynllun ar gyfer camlas a fyddai'n cysylltu Merthyr Tudful â Chaerdydd yn 1790: hyrwyddwyd Camlas Morgannwg ac fe'i hariannwyd yn bennaf gan y pedwar prif gwmni haearn ym Merthyr Tudful ond, yn ymarferol, dominyddwyd y gamlas gan Gyfarthfa. Caniataodd y Ddeddf Camlesi gysylltiadau tramffordd dros bellter penodol, ac un o'r pwysicaf o'r rhain oedd tramffordd Gurnos, a adeiladwyd gan y Cyfarthfa Company er mwyn cludo calchfaen o'r chwareli yn y Gurnos i'r gweithfeydd ac i Gamlas Morgannwg. Sefydlwyd y dramffordd yn 1792 ac roedd yn croesi afon Taf, ynghyd â ffrwd Cyfarthfa, ar Bont y Cafnau, sef pont haearn bwrw arloesol a gynlluniwyd gan Watkin George.²²

Roedd angen i'r cwmnïau eraill a oedd yn cynhyrchu haearn gael eu llwybrau eu hunain i gysylltu â'r gamlas, a'r rhai hiraf oedd y rhai a gysylltai â'r chwareli calchfaen i'r gogledd o Ferthyr Tudful. Gwnaeth Penydarren a Dowlais

gais am gysylltiad â'r gamlas cyn gynted ag y cynigiwyd y cynllun yn 1790. Rhedai'r dramffordd a ddilynodd o Ddowlais, gan ddilyn cwrs nant Morlais yn fras, i groesi afon Taf ar Bont Jackson. Mae'r llinell hon wedi goroesi i raddau helaeth mewn llinellau ffyrdd, ac adeiladwyd y palmant uchel gyferbyn â'r Theatre Royal yn benodol ar gyfer y dramffordd hon.²³

Disodlwyd y cysylltiad â'r gamlas yn fuan pan adeiladwyd tramffordd Penydarren, a gwblhaodd gysylltiad o chwarel Morlais yn y gogledd, â gwaith Penydarren a'r gamlas yn Abercynon. Mae'n debyg bod rhan ogleddol y llwybr hwn wedi'i sefydlu erbyn 1801, a bod y rhan ddeheuol wedi'i chwblhau yn 1802. Fe'i hysgogwyd o ganlyniad i gytundeb rhwng gweithfeydd haearn Dowlais, Penydarren a Plymouth, a oedd yn brwydro yn erbyn gafael Cyfarthfa dros Gamlas Morgannwg. Yn nodedig, ar y dramffordd hon y rheddodd locomotif stêm Richard Trevithick ar gledrau am y tro cyntaf yn 1804.

Mae llawer o'r llwybr wedi goroesi: gellir olrhain y rhan ogleddol o'r chwarel, gan fynd heibio i ochr ddwyreiniol ystad y Gurnos, yna drwy Tramroad Lane, Penydarren, i safle'r gwaith haearn; mae Tramroadside North a South yn nodi'r rhan ddeheuol, gan barhau fel llwybr i'r dwyrain o Pentrebach Road.

O'r 1840au, roedd rheilffyrdd yn darparu trafnidiaeth dros bellteroedd hirach yn nhirwedd Cyfarthfa a thu hwnt. Felly, roedd Rheilffordd Gethin a adeiladwyd tua 1850 yn cysylltu Pwll

Glo Gethin i'r de â Gwaith Haearn Cyfarthfa, ac roedd Rheilffordd Cwm Pit yn cysylltu Cwm Pit â'r gwaith haearn. Roedd y rheilffyrdd hyn yn gweithredu ar y cyd â rheilffyrdd a thramffyrdd byrrach o fewn y prif ardaloedd gweithio. Daeth rheilffyrdd yn brif gyswllt â marchnadoedd a phorthladdoedd hefyd ac, ymhen amser, disodlwyd Camlas Morgannwg gan reilffyrdd. Caeodd y rhan o Gyfarthfa i Ferthyr Tudful yn 1865, a rhoddwyd y gorau iddi yn y pen draw yn 1952 pan roedd y rhan fwyaf ohoni wedi'i llenwi, er bod rhai rhannau byr wedi goroesi, er enghraifft, gyferbyn â Chapel Row, Georgetown.

Roedd y Taff Vale Railway yn gysylltiad rheilffordd rhwng Caerdydd a Merthyr Tudful a bwriadwyd iddi leddfu tagfeydd ar y gamlas a achoswyd yn bennaf gan y cynnydd mewn traffig glo. Cyrhaeddodd Ferthyr Tudful ar hyd glan ddwyreiniol afon Taf yn 1842, ac roedd ei man terfyn rhwng yr afon a Plymouth Street i'r de o'r eglwys. Dilynodd y Vale of Neath Railway yn 1853, gan sicrhau mynediad i Gastell-nedd ac Abertawe drwy Dwnnel Aberdâr. Gorsaf y Stryd Fawr (yr orsaf bresennol) oedd man terfyn gwreiddiol y lein hon.²⁴ Roedd rheilffordd leol bwysig hefyd: agorodd Rheilffordd Dowlais yn 1851 yn dilyn Deddf a gafwyd gan Gwmni Dowlais yn 1849 i sefydlu rheilffordd rhwng Dowlais a Merthyr Tudful. Cysylltai â'r Taff Vale Railway yn Nhwynrodyn, a hefyd â'r Vale of Neath Railway ar ôl 1853. Mae llinell yr inclên hwn ('Inky') o Incline Top yn nodwedd bwysig o'r dirwedd o hyd, er ei bod wedi'i hesgeuluso.²⁵



Rhan fach o Gamlas Morgannwg yn Chapel Row (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Y draphont yng Nghefn Coed, gyda ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r A470 yn y cefndir. (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Yn y 1860au y gwelwyd y cyfnod ffyniannus go iawn o ran adeiladu rheilffyrdd, pan gysylltwyd Merthyr Tudful ag Aberhonddu tua'r gogledd (y Brecon and Merthyr Railway, a gwblhawyd yn 1868), a'r Fenni tua'r dwyrain (y London and North Western Railway, a gwblhawyd yn 1879). Roedd y rheilffyrdd hyn yn rhannu llwybr o Ddowlais, a gyrhaeddai Merthyr Tudful ar hyd traphont Cefn Coed. Dilynodd llwybrau eraill yn y 1870au a'r 1880au, yn cynnwys llwybr newydd ar ochr orllewinol afon Taf o Fynwent y Crynwyr i Ferthyr Tudful drwy Aberfân ac Abercanaid (y Great Western Railway a'r Rhymney Railway). Datblygwyd y rhwydwaith rheilffyrdd yn bennaf ar gyfer cludo nwyddau, gyda gwasanaethau teithwyr yn swyddogaeth bwysig, ond eilradd. Gyda dirywiad diwydiant trwm, collodd y rheilffyrdd eu prif bwrpas diwydiannol a chaewyd y rhan fwyaf o'r llwybrau yn y 1950au a'r 1960au, gan adael dim ond un prif lwybr rheilffordd — y gwasanaeth o Ferthyr Tudful i Gaerdydd ar lein wreiddiol y Taff Vale. Trafnidiaeth ffordd a ddisodlodd y rheilffyrdd, pan adeiladwyd ffordd Blaenau'r Cymoedd yn y 1960au, a'r A470 o Gaerdydd (a ddechreuwyd yn y 1960au, er y cymerwyd sawl degawd iddi gael ei chwblhau).²⁶

Metropolis y Meistri Haeam: Merthyr Tudful yn Dod yn Dref²⁷

*'Merthyr is like an American City — the creation of yesterday.'*²⁸

Roedd y mentrau haeam eang yn rhoi pwysau mawr ar y dirwedd i weithredu'n llwyddiannus, ond roedd hefyd angen llafurlu anferth arnynt. Erbyn 1848, roedd gan Gyfarthfa 11 o ffwrmeisi ac roedd angen 400 o ddynion ar bob un ohonynt, yn cynnwys glowyr, cloddwyr a llafurwyr²⁹; yn y 1860au, roedd gan Ddowlais 20 o ffwrmeisi ac roedd yn cyflogi tua 5,000 o ddynion; roedd gan Plymouth 10 o ffwrmeisi ac roedd yn cyflogi 4,000 o ddynion. Yn ei anterth, roedd Dowlais yn cyflogi 9,000 o ddynion. Tyfodd poblogaeth y dref yn gyflym iawn er mwyn cynnal allbwn cynyddol y prif waith. Cynyddodd o 7,000 yn 1801 i 24,000 yn 1831, ac i 70,000 yn 1861. Merthyr Tudful oedd y dref fwyaf yng Nghymru erbyn y cyfnod hwn a pharhaodd hynny hyd



at 1871–81, pan gafodd ei goddiweddyd gan Gaerdydd.³⁰

Roedd yn rhaid darparu llety ar gyfer y llafurlu anferth a chynyddol hwn ac arweiniodd yr angen am dai unwaith eto at roi pwysau ar y dirwedd. Yn aml, y diwydiannau eu hunain a gawsai flaenoriaeth o ran y gofod oedd ar gael, a bu'n rhaid i ddatblygiadau tai fanteisio ar lle bynnag oedd ar gael. Roedd llawer o'r datblygiad cynharaf yn anffurfiol ac yn digwydd ar hap, gan ehangu allan o graidd cynnar yr aneddiadau o amgylch yr eglwys, ac mewn patrymau gwasgaredig o aneddiadau ar ffiniau tir, a oedd yn gynhyrchiol naill ai ar gyfer amaethyddiaeth neu ddiwydiant. Mae'r enghreifftiau o aneddiadau cynnar yn brin bellach ond mae Upper Colliers Row yn un enghraifft bwysig sydd wedi goroesi. Roedd y gweithfeydd haearn mawr yn tueddu i fod yn gnewyllyn ar gyfer aneddiadau hefyd, gyda'r meistri haearn yn darparu rhywfaint o dai ar gyfer gweithwyr allweddol. O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd prosesau mwy ffurfiol o ffurfio aneddiadau hefyd wrth i ddatblygiadau trefol cynlluniedig gael eu gweithredu.

Mae Benjamin Malkin yn rhoi cyfrif da o lawer o'r elfennau hyn o ddatblygiad trefol yn 1806: 'The first houses that were built were only very small, simple cottages... most of them built in scattered confusion without any order or plan. As the works increased, more cottages were wanted and erected in the spaces between those that had previously been built, till they became so connected with each other, as to form a certain description of irregular streets. Some streets, it is to be observed, have within these

few years been built, and more are building, on a better plan, in straighter lines, and wider, having decent houses... In some of the early and rudely connected streets, we frequently see the small, miserable houses taken down, and larger and very seemly ones built in their stead... Shopkeepers, innkeepers, forge-men, some of them at least, and in no inconsiderable numbers, are making comfortable fortunes... Great improvements have been made in the past two years. Many new streets have been built, which are sufficiently straight and wide, and more have been laid out. The new houses are in general good, and some of the older streets have been rebuilt on an improved plan. Nearly the whole of the glebe has been laid out in regular streets for building'.³¹

Merthyr Tudful yn 1811, fel y'i dangoswyd gan J. G. Wood (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Llinell droellog y Stryd Fawr — asgwrn cefn canol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Er mai prin iawn yw'r tai cynnar sydd wedi goroesi, gellir canfod sawl nodwedd o batrwm nodedig yr aneddiadau a ddatblygodd o ddiwedd y ddeunawfed ganrif o hyd. Roedd llawer o'r aneddiadau cynnar yn llinellol ac yn dilyn ffyrdd, y gamlas, neu dramffyrdd: 'Almost the only assemblage of houses in Merthyr deserving of the name of a street — tramroads generally run along the lines of dwellings — is the High Street'.³² Dilynodd yr aneddiadau ffyrdd eraill, fel Brecon

Road, Twynyrodyn, a'r ffordd i Ddowlais — ceir tai cynnar ar y llwybrau hyn — ac roedd llwybr tramffordd Penydarren yn arbennig o bwysig fel echel aneddiadau. Mae enghreifftiau cynnar a wyrodd oddi ar y patrwm llinellol hwn wedi goroesi yn y Cwâr, o amgylch rhwydwaith o strydoedd afreolaidd, ac yn Morgantown; maent yn ardaloedd clòs o dai, sy'n awgrymu eu bod wedi cael eu ffitio i mewn i bocedi o dir a fodolai eisoes — caeau bach efallai.

Anheddiad llinellol yn Nhwynyrodyn (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Arferai'r tai hyn yn Tramroadside North edrych dros dramffordd Penydarren (Hawlfraint y Goron: CBHC).





*Llinellau tai cynnar
yn Thomastown
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

*Isod: Mae'r Cwâr
yn ardal nodedig
o strydoedd sy'n agos
at ei gilydd (Hawlfraint
y Goron: CBHC).*



Nid yw'r datblygiadau cynlluniedig cynnar sy'n seiliedig ar ardaloedd a ddisgrifir gan Malkin yn ardal Glebeland i'r gogledd o'r eglwys wedi goroesi ac mae rhai eraill, fel Georgetown, wedi cael eu hailddatblygu, ond mae Thomastown yn enghraifft bwysig o ddatblygiad cynlluniedig o ganol y bedwaredd

ganrif ar bymtheg. Daeth y patrwm datblygu mwy eang hwn, lle y gosodwyd strydoedd cyfan newydd, yn arfer cyffredin o hyn ymlaen. Mae Penydarren yn enghraifft dda arall o ddiwedd y ganrif, lle cafodd yr hen barc ei gynllunio mewn cyfres o gynlluniau tai wedi'u trefnu.

Roedd gan Thomastown gynllun eang yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Penydarren o'r dwyrain (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd ffyniant y diwydiant haearn yn cael ei adlewyrchu i raddau helaeth yn hanes y tai a adeiladwyd, gyda datblygiad parhaus rhwng y 1830au a'r 1850au, ac yn enwedig yn y 1850au. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd cloddio am lo wedi disodli'r diwydiant haearn fel prif ysgogwr economi diwydiannol yr ardal. Erbyn hynny hefyd, roedd y dref wedi datblygu economi drefol o fasnach a gwasanaethau, ac mae'n debyg mai hyn a anogodd y twf nodedig o faestrefi mwy eang a ffyniannus fel Penydarren, er enghraifft.

Roedd dynameg yr aneddiadau yn perthyn i ddaeryddiaeth anheddu nodedig. I ddechrau, datblygodd ardaloedd preswyl yn gymharol agos at weithfeydd haearn unigol lle'r oedd y meistri haearn yn annog datblygiad — yn benodol Williamstown a Georgetown ar gyfer Cyfarthfa, a Phentrebach ar gyfer Plymouth. Roedd y Stryd Fawr a Church Street ym Mhenydarren, ynghyd â chlwtwr o dai ym Mhenyard, yn gysylltiedig â Gwaith Haearn Penydarren.


Roedd gan bob un o'r ardaloedd preswyl unigol hunaniaeth gymdeithasol gref, ac yn aml roedd ganddynt gysylltiadau cryf â chymunedau o fewnfudwyr penodol. Yn 1847, canfu'r Comisiwn Brenhinol fod 'workers live together very much in clans, for example the Pembrokeshire men in one quarter, the Carmarthenshire men in another, and so on.'³³ Roedd rhywfaint o arwahanu ar sail dosbarth a statws hefyd, gyda gweithwyr medrus yn tueddu i fyw agosaf at y gweithfeydd



mewn tai a ddarparwyd gan y cwmnïau haearn, a llwythwyd gweithwyr heb sgiliau mewn tai hapfasnachol i'r gogledd a'r de o ganol y dref. I'r gwrthwyneb, roedd gan Thomastown gymeriad dosbarth canol a datblygodd yn agos at ganol y dref ei hun yn hytrach nag at unrhyw waith penodol. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd ehangiad trefol wedi colli unrhyw gysylltiad uniongyrchol â gweithfeydd unigol. Roedd datblygiad Parc Penydarren yn cynnwys maestref dosbarth canol sylweddol yn ogystal ag ymdrechion cyntaf y cyngor i adeiladu tai.

Roedd hoffterau'r meistri haearn hefyd yn ddylanwadol ar ddaeryddiaeth yr aneddiadau. Roeddent hwy hefyd yn byw yn agos at safleoedd eu gweithfeydd, ond roedd eu ffordd o fyw cynyddol fras yn gofyn am gyd-destun mwy helaeth. Adeiladwyd Tŷ Cyfarthfa ar gyfer Anthony Bacon yn 1784, 'surrounded with fire, flame, smoke and ashes'.³⁴

Rhai o'r tai a oedd yn gysylltiedig â Gwaith Haearn Penydarren: Church Street, Penydarren (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Adeiladwyd Tŷ Cyfarthfa ger y gwaith haearn ac roedd yn gartref i'r teulu Crawshay cyn i Gastell Cyfarthfa gael ei adeiladu yn 1825. William Pamplin a ddarluniodd yr olygfa brin hon rhwng 1791 a 1800 (Atgynhyrchwyd y ffotograff gyda chaniatâd caredig Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful).



Portread rhamantaidd o Gastell Cyfarthfa gan Penry Williams (Atgynhyrchwyd y ffotograff gyda chaniatâd caredig Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful).

Roedd Castell Cyfarthfa yn rhagori arno. Fe'i hadeiladwyd ar gyfer y teulu Crawshay yn 1825, ar barcdir sydd â chysylltiadau agos o hyd â'r diwydiant â'i hariannodd. Er enghraifft, roedd y llyn yn gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr i'r gwaith haearn, a oedd i'w weld o'r castell. 'The southwest embraces, on the foreground, the terrace, park and River Taff, beyond which the great ironworks become conspicuous; these at night offer a truly magnificent scene, resembling the fabled Pandemonium, upon which the eye may gaze with great pleasure... At a distance from the castle, a walk along the river leads to the limestone quarry, where the high projecting rocks, combining with the river and wooded banks, form truly grand and picturesque objects... the style adopted at Cyfarthfa Castle is designed for the situation, standing alone in the midst of rising ground in a bold country'.³⁵ Bu'r teulu Crawshay yn byw yn Nhŷ Gwaelod y Garth, a adeiladwyd tua 1810, am gyfnod byr hefyd.

Roedd Tŷ Penydarren, a adeiladwyd yn 1786, hefyd wedi'i leoli mewn parc helaeth: roedd yn 'large and elegant, with fine and well-planted gardens, green-houses, hot-houses, and all the accommodations befitting the residence of a wealthy family'.³⁶ Roedd y tŷ yn agos at y gwaith haearn ond, yn wahanol i Gyfarthfa, nid oedd yn edrych drosto. Cafodd ei droi yn ysgol,

a goroesodd tan y 1960au, ond yn y pen draw cafodd ei ddymchwel ac adeiladwyd ar y safle ar gyfer datblygiad tai ym Mharc Penydarren.

Ym mlynnyddoedd cynnar yr ehangu, tyfodd Merthyr Tudful i fod yn gyfres o gymunedau diwydiannol, ac ymhen amser dechreuodd ymdebygu i dref. Roedd craidd cynnar yr aneddiadau o amgylch yr eglwys a'r Llys yn gnewyllyn ar gyfer datblygiad pellach yn y cyfnod diwydiannol — dengys mapiau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg batrwm anheddu nodedig i'r de a'r dwyrain o'r eglwys. Mae'r cynllun damweiniol hwn yn awgrymu bod datblygiadau wedi ymwthio ar leiniau o dir a oedd eisoes wedi'u diffinio. Roedd llinell droellog y Stryd Fawr tua'r gogledd yn bodoli eisoes ac, fel llwybrau cynnar eraill, lluniodd y fframwaith ar gyfer datblygiad llinellol, a ddatblygodd gymeriad masnachol yn gyflym yma. Tua'r gogledd a'r gorllewin o'r eglwys, roedd datblygiad mwy ffurfiol hefyd yn ymddangos ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Fel y disgrifiwyd gan Malkin, dyma enghraifft gynnar o gynllunio tref a sefydlwyd patrwm grid rheolaidd, y collwyd y rhan fwyaf ohono yng ngwaith ailddatblygu'r ugeinfed ganrif.

Cymerwyd cam mawr ymlaen yn y broses bwrpasol o greu canol tref yn 1838 pan adeiladwyd y neuadd farchnad, yn edrych



Y Stryd Fawr tua 1850 (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

dros 'spacious square, which, in summer time, is frequently filled with exhibitions of all kinds'.³⁷ Datblygodd y sgwâr i fod yn fan pwysig ym mywyd diwylliannol a gwleidyddol y dref fel man cyfarfod pwysig, ac roedd y farchnad ei hun yn ganolbwynt pwysig: 'the market house, which is very capacious, may be termed "a bazaar of shops"'. The scene from six to ten o'clock every Saturday evening is one of the most extraordinary I have ever witnessed. In this interval what one might suppose the entire labouring population of

Merthyr Tydfil passes through its crowded halls... It is not only the field of supply, but evidently the promenade of the working classes'.³⁸ Dilynodd sefydliadau trefol eraill a datblygodd eu hadeiladau i fod yn gonglfeini i ddiffinio canol y dref, er enghraifft, tloty'r undeb a adeiladwyd yn 1853. Atgyfnerthodd y ffaith yr adeiladwyd dwy orsaf reilffordd i'r dwyrain a'r de o ganol y dref (y Vale of Neath Railway a'r Taff Vale Railway yn y drefn honno) rôl canol y dref o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen.



Adeiladau o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Stryd Victoria, a arferai edrych dros y neuadd farchnad (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde ac isod: Adeiladau mawreddog o droad y ganrif yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Ond yn anad dim, masnach a roddodd gymeriad penodol i ganol y dref. Sefydlwyd llinell y Stryd Fawr yn gadarn fel y brif echel a oedd yn cysylltu ardaloedd preswyl gwahanol erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ymddengys bod dosbarth canol parhaol o fasnachwyr a siopwyr erbyn y cyfnod hwn. Mae'n debyg y gwelwyd cynnydd yn nifer y siopau hefyd o ganlyniad i'r cynnydd yn y boblogaeth. Erbyn diwedd y ganrif, 'the commercial quarters of the Merthyr Tydfil district still bear some evidence of belonging to a great centre of population which has been created in a hurry, later years have done much to improve the outward seeming of its leading shops and emporiums'.³⁹ Roedd wedi datblygu nodweddion pensaernïol nodedig a oedd yn unigryw a chyfoethog. Dangosodd hyn i ddechrau gymaint o bobl a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu canol y dref, lle y gwelwyd adeiladau unigol neu derasau byr yn bennaf, ac yn ail yr uchelgaïs a oedd yn gysylltiedig ag ef. Mae rhai o'i adeiladau mwyaf nodedig yn dyddio o droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar adeg pan oedd y diwydiant haearn yn dirywio.

Gwelwyd nifer cynyddol o eglwysi a chapeli yng nghanol y dref a'r ardaloedd preswyl dibynnol — adeiladwyd y synagog pwrpasol cyntaf yng Nghymru yng nghanol y dref yn 1872–75. Mae dyddiadau'r adeilad yn helpu i nodi ehangiad ffisegol yr anheddu yn ogystal â chyfnodau allweddol yn y broses o'u gwella. Er enghraifft, ailadeiladwyd eglwys Santes Tudful yn 1820–21 ond cafodd ei hailfodelu'n sylweddol rhwng 1891 a 1901. Ar y Stryd Fawr, adeiladwyd Eglwys y Bedyddwyr yn 1841, adeiladwyd Soar ym Mhontmorlais yn 1841 (gan ddisodli adeilad cynharach a oedd yn dyddio o 1823), ac adeiladwyd Eglwys Dewi Sant yn 1846–47. Yn Thomastown, adeiladwyd Capel Wesleiaidd Cymreig (Neuadd Les y Glowyr yn ddiweddarach) yn 1853. Yn Nhwynyrodyn, sefydlwyd Eglwys Bedyddwyr Cymreig Seion yn 1788, a'i hailadeiladu yn 1841, ac adeiladwyd Penuel yn 1860. Ar Plymouth Street, adeiladwyd Capel Bedyddwyr Cymreig Ebenezer yn 1829–31, ac ym Mhenydarren, adeiladwyd Eglwys Sant Ioan yn Church Street yn 1858, ac eglwys y Santes Fair ar The Walk yn 1893–94.



Yr adeilad hwn yn Thomastown oedd y synagog cyntaf i gael ei adeiladu yng Nghymru (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Capel Bedyddwyr Cymraeg Ebenezer, Stryd Plymouth, fel y'u darluniwyd gan Falcon Hildred yn 1981 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Eglwys y Bedyddwyr,
y Stryd Fawr
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Erbyn 1860, roedd tua 60 o gapeli ym Merthyr Tudful, ynghyd â sawl eglwys. Ond dim ond rhan o stori lwyddiant ac uchelgais y dref ddiwydiannol newydd hon y mae'r ffigurau a dyddiadau'r adeiladau yn ei hadrodd. Ailgynlluniwyd llawer o adeiladau crefyddol a seciwlar pwysig Merthyr Tudful gan brif benseiri eu cyfnod:

credir bod Capel Wesleiaidd Cymreig Shiloh yn gomisiwn anarferol gan I. K. Brunel, a chynlluniwyd Eglwys Dewi Sant ac Eglwys y Bedyddwyr ar y Stryd Fawr gan T. H. Wyatt. Pan ail-fodelwyd eglwys Santes Tudful ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, J. L. Pearson a gafodd y comisiwn.

*Gwaith J. L. Pearson
a welir ar ben dwyreiniol
eglwys Sant Tudful
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Bywyd Dinesig, Gwleidyddiaeth a Chymdeithas

Mewn sawl ffordd, dilyn datblygiad Merthyr Tudful fel tref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a wnaeth sefydliadau dinesig, yn hytrach na'i arwain. Mewn ymateb i boblogaeth a oedd yn cynyddu'n gyflym, sefydlwyd bwrdd iechyd yn 1850, a bu'n gyfrifol am osod palmentydd, goleuadau, systemau draenio a chyflenwad dŵr. O 1860, roedd y bwrdd iechyd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau adeiladu gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo. Mae'n debyg bod cynllun nodweddiadol cynlluniau tai ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lle'r oedd lonydd cefn yn gwahanu rhesi unfath o dai, yn adlewyrchu dylanwad y bwrdd iechyd. Er gwaethaf twf trefol sylweddol, ni ddaeth Merthyr Tudful yn gyngor dosbarth trefol tan 1894; adeiladwyd neuadd y dref yn 1896–97 fel ffordd bwysig

o fynegi'r statws newydd hwn. Rhoddwyd statws bwrdeistref i Ferthyr Tudful yn 1905, ac ehangwyd ei statws ymhellach dair blynedd yn ddiweddarach pan gafodd ei gwneud yn fwrdeistref sirol.

Erbyn y cyfnod hwn, roedd cyfrifoldebau'r fwrdeistref yn ymestyn ar draws addysg, cynllunio, tai, llyfrgelloedd, parciau, baddondai ac iechyd cyhoeddus, yn cynnwys etifeddiaeth bwysig o fentrau dinesig, yn enwedig creu Parc Thomastown yn 1900 a chaffael Castell Cyfarthfa, a agorwyd fel ysgol yn 1913. Fodd bynnag, gweithgarwch y cyngor yn adeiladu tai oedd fwyaf arwyddocaol. Mae gan Ferthyr Tudful dai cyngor cynnar iawn ym Mhenydarren; adeiladwyd Council Street ac Urban Street erbyn 1903. Ymhlith y cynlluniau arloesol eraill roedd Garden City, Penydarren, a ddechreuodd fel menter breifat yn 1913. Fe'i mabwysiadwyd gan y cyngor ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a chafodd ei gwblhau yn 1920, yna ei ehangu rhwng 1920 a 1924. Arweiniodd Deddf Tai 1919 at ragor o ddatblygiadau tai, gan ddechrau yn Heolgerrig.

*Neuadd y dref
yn 2010 cyn i'r
gwaith adnewyddu
fynd rhagddo
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Erbyn 1939, roedd tua 1,300 o dai cyngor wedi cael eu hadeiladu ledled y fwrdeistref, y rhan fwyaf ohonynt mewn cynlluniau cymharol fach.

Yn ystod y 1920au y gwelwyd y gwaith adeiladu mwyaf oherwydd y cwtogwyd ar

gyllid cyngorau yn ystod dirwasgiad y 1930au. Ar ôl y rhyfel, arweiniodd buddsoddiad o'r newydd ac ymrwymiad i ailddatblygu at raglenni adeiladu ar raddfa fwy fel ystad y Gurnos, a chynlluniau ailddatblygu cynhwysfawr fel y rhai yng Nghaedraw a Georgetown.

Golygfa gynnar o Barc Thomastown (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Isod: Mae Council Street, Penydarren, yn enghraifft bwysig o dai cyngor cynnar (Hawlfraint y Goron: CBHC).





*Ystad Gellideg, tua 1955
(Hawlfraint: Casgliad
Francis Frith).*



*Ystad Gurnos o'r awyr
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Roedd diwylliant trefol yn rhan o ddaearyddiaeth aneddiadau a'i sefydliadau allweddol; roedd radicaliaeth wleidyddol yn agwedd bwysig ar hyn. Taflodd Gwrthryfel Merthyr yn 1831 gysgod dros y terfysgoedd yn 1800 a 1816. Yn rhannol fel adwaith i benderfyniad gan William Crawshay i ostwng cyflogau ei gyflogeion, dinistriwyd y Llys gan dorf ffyrnig gan gadw'r ynadon dan warchae yn y Castle Hotel, ar gornel Castle Street a'r Stryd Fawr, Pontmorlais (safle Castle Cinema yn ddiweddarach). Yn y gwrthdaro dilynol, saethwyd a lladdwyd o leiaf 20 o aelodau o'r

dorf, a chwifiwyd y faner goch am y tro cyntaf.⁴⁰ Mae hen adeilad y Llys Deisyfion yn Georgetown hefyd yn gysylltiedig â Gwrthryfel Merthyr yn draddodiadol, a dywedwyd bod Dic Penderyn wedi torri i mewn iddo. Ar ddiwedd y degawd hwnnw, o 1839, datblygodd Merthyr Tudful i fod yn brif ganolfan ar gyfer Siartiaeth. O fewn ei fudiad hynod drefnus, roedd Georgetown yn ward arweiniol, ac roedd pwysigrwydd penodol i dafarn y Three Horse Shoes fel man cyfarfod poblogaidd.⁴¹ Defnyddiodd y Siartwyr fannau cyfarfod yn yr awyr agored hefyd, fel y llechwedd

*Y fyddin yn ceisio
adfer trefn yn ystod
terfysgoedd 1816,
fel y'i dangosir gan
Penry Williams
(Atgynhyrchwyd y
ffotograff gyda chaniatâd
caredig Amgueddfa
ac Oriel Gelf Castell
Cyfarthfa, Merthyr
Tudful).*



yn Heolgerrig, a byddent yn gorymdeithio drwy strydoedd y dref yn rheolaidd.

Fodd bynnag, fel yr ymdrechion cyntaf tuag at undebaeth drefnus, byrhoedlog oedd mudiad y Siartwyr. Gwelwyd ochr radical Merthyr Tudful unwaith eto yn 1900, pan etholwyd yr Aelod Seneddol sosialaidd cyntaf, Keir Hardie, yma. Noddwyd ymgeisyddiaeth Hardie gan y Pwyllgor Cynrychioli Llafur (rhagflaenydd y Blaid Lafur) a chyhoeddwyd ei fuddugoliaeth o falconi neuadd y dref.

Colled ac Adnewyddu: Yr Ugeinfed Ganrif

*'The higgledy-piggledy building which was a feature of the growth of Merthyr in the nineteenth century has left many other problems for the planners, of which one, the narrowness of High Street was alleviated by the A4060 Dowlais Top to Pentrebach road. Nor has their task been made easier by the indiscriminate dumping of waste from furnace and colliery which was allowed to go on unchecked until recent years. The black spots are disappearing one by one, and in their building programme the Council are providing homes for the people a little farther away from the congested areas.'*⁴²

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y dref yn dal i ehangu ac roedd adeiladau newydd, uchelgeisiol wrthi'n cael eu codi, at ddibenion masnachol a dinesig: er enghraifft, Siambrau Milbourne, adeilad y YMCA, y Deml Fasonaidd, yr hen swyddfa bost ar John Street a adeiladwyd yn 1903–05, a Banc Lloyds, 1922–23. Roedd y cyngor hefyd yn arwain y gwaith o adeiladu tai — Council Street ac Urban Street ym Mhenydarren, a adeiladwyd erbyn 1903, oedd y cyntaf mewn rhaglen o dai dinesig, a ddarparodd 1,351 o dai ledled y fwrdeistref erbyn yr Ail Ryfel Byd.⁴³

Ond, erbyn y 1920au, roedd gwirionedd llym y cwmp economaidd yn amlwg, a gostyngodd y boblogaeth o 80,000 i 63,000 rhwng 1921 a 1937.⁴⁴ Erbyn 1932, roedd y gyfradd ddiweithdra yn 62.3 y cant, a'r flwyddyn honno, talodd y cyngor fwy o arian mewn budd-daliadau diweithdra na chost ei holl wasanaethau yn 1919. Erbyn 1938, roedd gwerth yr holl eiddo yn y fwrdeistref cyn lleied â hanner cost budd-daliadau diweithdra.⁴⁵ Yn erbyn y cefndir hwn, nid oedd yr adnoddau lleol ar gael i fuddsoddi mewn gwaith adnewyddu. Yn 1939, argymhellodd adroddiad seneddol y dylid troi cefn yn llwyr ar Ferthyr Tudful, gan symud gweddill ei phobl i'r arfordir neu i Ddyffryn Wysg, gan greu cronfa ddŵr ar safle'r dref.

Fodd bynnag, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, helpodd llywodraeth ymyraethol i greu hinsawdd o adnewyddu. Gydag anogaeth y Ddeddf Dosbarthu Diwydiant, sefydlwyd busnesau newydd, fel Hoover (1948) a Thorn Electrical Industries (1951). Ymhlith y prosiectau cyhoeddus pwysig eraill roedd y Coleg Addysg Bellach

a adeiladwyd yn 1950–52. Rhyddhawyd adnoddau ar gyfer clirio ac ailddatblygu slymiau hefyd, a buddsoddwyd yn helaeth mewn tai newydd. O dan raglenni clirio slymiau yn y 1960au a'r 1970au, dymchwelwyd tua 280 o dai yn ardal Penydarren, 440 yn Georgetown, 150 yn Ynysfach a 140 yng Nghae Pant Tywyll.



Adeiladau cain o ddechrau'r ugeinfed ganrif: Siambrau Milbourne (chwith uchaf), yr hen swyddfa bost (dde uchaf), a'r YMCA (chwith) (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Fodd bynnag, erbyn 1958, roedd mwy na 1,500 o dai newydd wedi cael eu hadeiladu ac roedd ystad y Gurnos ar fin creu cymuned o 2,500 o dai.⁴⁶

Newidiodd daearyddiaeth yr aneddiadau eto dan ddylanwad y polisïau newydd hyn, a gwelwyd ehangu sylweddol, yn benodol i'r gorllewin o afon Taf (yn Heolgerrig a Gellideg) ac i'r gogledd a'r dwyrain o'r craidd anheddu presennol — yn fwyaf penodol yn y Gurnos.



Roedd y gwaith ailddatblygu yng nghanol y dref yn cynnwys y farchnad, a ailadeiladwyd yn 1967–70, a'r swyddfeydd dinesig a adeiladwyd yn 1989–90. Roedd y ddau gynllun yn cynnwys proses radical o ail-gyflunio gofod ac arweiniodd hyn at golli llawer o'r patrwm strydoedd a etifeddwyd. Roedd y dull mwy cynhwysfawr hwn o ailddatblygu hefyd yn nodweddu rhai o'r cynlluniau tai, a gyflwynodd batrwm strydoedd hollol newydd bron ar ardaloedd wedi'u clirio, er enghraifft yn Georgetown a Chaedraw. Roedd y dull hwn, a sefydlwyd yn y cyfnod yn union ar ôl y rhyfel, yn boblogaidd iawn yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Uchod: Tai cyngor o'r cyfnod ar ôl y rhyfel yng Ngellideg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Roedd Ynysfach yn un o'r ardaloedd niferus a drawsnewidiwyd ar ôl y rhaglenni clirio slymiau yn y 1960au a'r 1970au (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tirwedd Hanesyddol

Merthyr Tudful yn 1850 (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

*'Merthyr Tydfil... lies between rough bleak mountains besides heaps of cinders which rise to an immense height.'*⁴⁷

Saif Merthyr Tudful mewn lleoliad trawiadol, naturiol yn nyffryn serth afon Taf, yn agos at ffynhonnell y llu o ddeunyddiau crai a gynhaliodd ei heconomi a'i chymdeithas ddiwydiannol. Allan o'r dirwedd naturiol, crëwyd tirwedd ddiwydiannol ac addaswyd y tirffurfiau naturiol gan weithgarwch cloddio a thomennu. Tyfodd y dref yn yr ardaloedd rhwng tir a oedd yn llawn cyfoeth naturiol, a chyfyngodd hyn ar ei thwf. Bu'n rhaid darparu tai o amgylch anghenion diwydiant: y gweithfeydd, eu pyllau glo a'u chwareli; tomennydd a systemau trafniadaeth a gawsai flaenoriaeth ar y tir, ac roedd ardaloedd preswyl yn orlawn pan oedd lle iddynt.

Tirwedd Diwydiant

Dominyddwyd datblygiad diwydiannol Merthyr Tudful gan bedwar cwmni cynhyrchu haearn mawr, ac roedd gan bob un ohonynt ei dirddaliadaeth unigol ei hun. Cynhaliwyd sawl gweithgarwch gwahanol ar y daliadau hyn: cloddio am lo, haearnfaen, a chalchfaen, prosesu deunyddiau crai (fel calchynnu neu ologi) a thomennu gwastraff. Cynhyrchu haearn bwrw a haearn gyr yng ngweithfeydd haearn Cyfarthfa ac Ynysfach, Penydarren, Plymouth, Pentrebach a Dyffryn, Dowlais ac Ivor oedd canolbwynt yr holl weithgarwch hwn. Hefyd, roedd angen i'r holl ddeunyddiau crai gael eu cludo i'r gweithfeydd haearn ac roedd angen cludo'r cynnyrch gorffenedig ymaith. Felly, roedd y dirwedd yn llawn rhwydwaith cymhleth o lwybrau trafniadaeth



Castell Cyfarthfa yn ei barcdir — roedd y llyn, nid yn unig yn addurniadol, ond hefyd yn rhan o'r cyflenwad dŵr ar gyfer y gwaith haearn (Hawlfraint y Goron: CBHC).

i'r gweithfeydd haearn ac oddi yno. Cloddio, prosesu, gwaredu gwastraff, a thrafnidiaeth oedd y dylanwadau mwyaf ar y dirwedd ym Merthyr Tudful.

Mewn sawl ardal, mae gwaith ailddatblygu wedi dileu'r dystiolaeth o waith cloddio, tomennu a phrosesu, ac mae ardaloedd craidd y gweithfeydd haearn naill ai wedi'u colli bron (Penydarren) neu wedi'u gwthio i'r cyrion (Cyfarthfa, Ynysfach, Plymouth). Adeiladwyd dros sawl llwybr trafnidiaeth hanesyddol hefyd neu fe'u gadawyd i ddirywio. Fodd bynnag, mewn sawl ardal, gellir cael rhywfaith o ymdeimlad o'r rhyng-gysylltiad rhwng gweithgareddau o hyd. Mae hyn yn arbennig o wir am y dirwedd sy'n gysylltiedig â Chyfarthfa i'r gorllewin o afon Taf, sy'n llawn tystiolaeth o ddiwydiant o hyd a lle mae olion o'i systemau trafnidiaeth wedi goroesi. Fodd bynnag, mae'r system ffordd fodern, datblygiadau masnachol a phreswyl wedi tarfu ar gysylltedd hanesyddol safleoedd craidd y gweithfeydd haearn yng Nghyfarthfa ac Ynysfach, gyda'u strwythurau trawiadol sydd wedi goroesi. Yn yr un modd, o'r gogledd a'r dwyrain, gellir olrhain tirwedd rhyng-gysylltiedig o hyd, gan ddilyn

y ffrwd o afon Taf Fechan a'r dramffordd o'r chwareli yn y Gurnos i safle'r gwaith haearn drwy Bont y Cafnau, heibio i'r odynau calch islaw Pont Cefn. Mae Castell a Pharc Cyfarthfa yn rhan annatod o'r dirwedd ddiwydiannol gysylltiedig hon. Fe'i cynlluniwyd i edrych dros y gweithfeydd haearn, a chael cysylltiadau gweledol a gwirioneddol ag adnoddau diwydiannol ehangach yr ystad, gan gynnwys defnyddio'r llyn fel rhan o'r cyflenwad dŵr i'r gweithfeydd. Yng nghyffiniau'r castell a'r parc, mae un o ffermydd yr ystad wedi goroesi, yn ogystal â thai diwydiannol cynnar.

Dyma lle mae'r cysylltiad hanesyddol rhwng elfennau o'r dirwedd ddiwydiannol ar ei gryfaf. Mewn mannau eraill, llwybrau trafnidiaeth a'r patrwm anheddu ei hun yw'r cysylltiadau cryfaf â'r rhesymeg datblygu wreiddiol.

Patrymau Anheddu

Roedd yr anheddiad gwreiddiol wedi'i gyfyngu i lan ddwyreiniol afon Taf ac ymddengys ei fod wedi'i glystyru yn ardal yr eglwys. Yma, mae'n

bosibl bod patrwm datblygu tynn, ond damweiniol braidd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn adlewyrchu cynllun afreolaidd cynharach. Cyfyngwyd ar weithgarwch ehangu tua'r gorllewin gan ofynion Gwaith Haeam Cyfarthfa ac Ynysfach, a oedd yn dibynnu ar y dirwedd hon am ddeunyddiau crai ac i domenau. Yn yr un modd, tua'r de a'r dwyrain, y prif alw ar y dirwedd oedd cyflenwi gweithfeydd haeam Dowlais, Plymouth a Phenyarden. Wrth i leoliad y gwaith cloddio symud o amgylch yr ardal dros amser, adeiladwyd dros rai ardaloedd yr arferwyd eu gweithio — erbyn 1848, arsylwodd Clarke 'many of the tips

have been built on' — canmolodd hefyd yr olygfa o'r dref a geir o'r tomennydd ger cydlifiad afon Morlais ac afon Taf.⁴⁸

Roedd lleoliad y gweithfeydd haeam yn dylanwadu'n uniongyrchol ar leoliad yr aneddiadau. Datblygwyd Williamstown a Georgetown yn gymharol agos at waith Cyfarthfa ac Ynysfach. Ym Mhenyarden hefyd, roedd rhai datblygiadau peryglus a ffurfiodd gnewyllyn hanesyddol yr anheddiad yn Mhenyard, ond roedd anheddiad llinellol mawr hefyd gyferbyn â'r gwaith. Cafwyd rhywfaint o ailddatblygu, ond mae olion yr anheddiad hwn wedi goroesi yn Church Street.



Tai cynnar ger y gwaith yng Nghyfarthfa ac Ynysfach — Williamstown (chwith) a Chapel Row (isod) (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Mae Penydarren
yn enghraifft
dda o anheddiad
cynlluniedig.*



Roedd y fframwaith hwn a gyflwynwyd gan lwybrau trafnidiaeth o wahanol fathau mor bwysig â lleoliad y gweithfeydd haearn ar gyfer creu anheddiad. Mae rhai o'r tai cynharaf sydd wedi goroesi ar hyd ffyrdd, tramffyrdd neu'r gamlas, ac mae canol y dref ei hun yn anarferol o ran ei datblygiad llinellol cryf. Dechreuodd datblygiad cynlluniedig gyda phatrwm strydoedd penodol ar leiniau mwy o dir ar ddechrau'r

bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gyfuno nodweddion gwahanol aneddiadau, yn benodol Thomastown and Georgetown i ddechrau, ac yna Penydarren. Yn yr ugeinfed ganrif, roedd datblygiadau newydd hefyd yn dilyn confensiynau cynllunio, ac mae prosesau ailddatblygu wedi tueddu i ddileu patrymau damweiniol cynharach ac aneddiadau cynlluniedig mwy rheolaidd (Caedraw a Georgetown, er enghraifft).

*Anheddiad llinellol
yn Church Street (dde),
Penydarren; Heol
Aberhonddu (dde isod)
ac ar hyd Tramroadside
North (chwith isod)
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Roedd daearyddiaeth gymdeithasol aneddiadau hefyd yn bwysig iawn. Wrth i ganol y dref ddatblygu gydag adeiladau masnachol a sefydliadau dinesig, siopau a swyddfeydd a welwyd yn bennaf ar linell hir y Stryd Fawr, gyda gweithgareddau gweithgynhyrchu a gweithgareddau eraill yn cael eu cynnal mewn iardiau y tu ôl i'r adeiladau. Mae llawer o'r datblygu 'cefnwlad' hwn wedi diflannu, ond mae Old Mill Lane a chefn yr adeiladau ar ochr ddeheuol Pontmorlais West a Phontmorlais Circus yn enghreifftiau da sydd wedi goroesi. Mae'r lonydd a'r aliau bach sy'n rhedeg rhwng y prif ffyrntiadau, yn enwedig ar hyd y Stryd Fawr, Pontmorlais, yn etifeddiaeth bwysig o'r patrwm datblygu hwn. Roedd y Stryd Fawr yn cysylltu ardaloedd preswyl unigol, pob un ohonynt â'i nodweddion ei hun. Roedd rhai o'r rhain yn ardaloedd preswyl tlawd — Tsieina i'r gogledd ('the district called China consist totally of thieves' yn y 1840au⁴⁹) a Chaedraw i'r de.

I'r gwrthwyneb, datblygwyd Thomastown fel maestref â statws uwch iddi gyda nodweddion pensaernïol unedig. Er y ceir llawer o amrywiaeth ym Mhenydarren, yma y lleolir y rhan fwyaf o dai dosbarth canol Merthyr Tudful.⁵⁰ Fel Parc Cyfarthfa, gwaharddwyd datblygu ym Mharc Penydarren yn flaenorol yn llwyr am resymau cymdeithasol, am mai ystad deuluol breifat meistr haeam pwysig ydoedd. Yn sgîl gwerthu Parc Penydarren i'w ailddatblygu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, crëwyd cyfle am ehangiad maestrefol newydd ar raddfa uchelgeisiol ar ôl tua 1880.



*Y Stryd Fawr
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Datblygwyd tai
maestrefol o ansawdd
uchel ym Mharc
Penydarren ar ddiwedd
y bedwaredd ganrif
ar bymtheg; mae'r tai
hyn ar Gwaelodygarth
Road yn enghreifftiau
da (Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Datblygwyd
Thomastown yn faestref
â statws uchel yng
nganol y bedwaredd
ganrif ar bymtheg
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

Nodweddion Adeiladu

*'One vast assemblage of churches, chapels, houses and hamlets, all blended into one vast extensive scene.'*⁵¹

*'The houses are built of a peculiar grey sandstone, raised in abundance by the patchers who quarry for the nodules of iron ore... this stone costs little more than the cost of carting.'*⁵²

Tywodfaen Pennant llanw mewn tai ar Stuart Street (uchaf) a Tudor Terrace (canol). Tywodfaen Pennant patrymog gyda brics ar Gwaelodygarth Road (isaf) (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Deunyddiau Adeiladu

Mae'r wybodaeth am garreg adeiladu ym Merthyr Tudful yn seiliedig ar adroddiad a baratowyd ar gyfer yr astudiaeth hon gan Jana Horák a John Davies, Adran Ddaearreg, Amgueddfa Cymru.

Cyfrannodd y ddaearreg a ddarparodd y deunyddiau crai ar gyfer datblygiad diwydiannol Merthyr Tudful hefyd at ddeunyddiau adeiladu lleol. Roedd yr Haenau Glo yn ffynhonnell dau fath o garreg adeiladu — Tywodfaen Pennant a'r Farewell Rock — ac yn achlysurol defnyddiwyd tri math arall o garreg adeiladu, wedi'u brigo ymhellach oddi wrth y dref, hefyd: Graean Gwaelodol neu Dywodfaen Twrch, Calchfaen Carbonifferaidd a Hen Dywodfaen Coch Defonaidd. Mewnforiwyd rhai cerrig adeiladu hefyd o ffynonellau pellach, yn benodol Carreg Caerfaddon, a ddefnyddiwyd yn bennaf fel addumiadau mewn adeiladau dinesig, eglwysi a rhai tai â statws uwch.

Tywodfaen Pennant

Mae Tywodfaen Pennant yn hindreulio o liw llwydlas i frown rhydlyd wrth i'r cynnwys haearn ocsideiddio. Dyma'r garreg adeiladu fwyaf cyffredin yn yr ardal o bell ffordd ac fe'i defnyddiwyd yn eang fel rwbel mewn waliau y bwriadwyd iddynt gael eu gwyngalchu neu eu rendro. Lle mae wedi'i hamlygu, fel arfer caiff ei defnyddio fel blociau wedi'u naddu, naill ai fel haenau rheolaidd neu haenau ar hap gyda jymper. Mae'r haenau'n amrywio o rai cymharol denau, er enghraifft tua 4 modfedd (10cm), i flociau mwy sylweddol. Caiff y dimensiynau eu pennu yn ôl trwch gwreiddiol yr haenau yn y tywodfaen. Yn aml, caiff y tywodfaen ei gyfuno â deunyddiau eraill fel addumiadau. Mae Carreg Caerfaddon fwyaf cyffredin mewn tai dinesig a rhai tai â statws uwch, ond defnyddiwyd brics coch a therracotta Rhiwabon hefyd. Ymysg yr enghreifftiau mae Eglwys Santes Tudful ac Eglwys Dewi Sant (y Stryd Fawr), Eglwys y Santes Fair (The Walk) (Pennant a Charreg Caerfaddon) a Hen Neuadd y Dref (Pennant gyda brics Cattybrook coch a therracotta). Mae brics coch a melyn yn ddeunyddiau addurno arbennig o gyffredin, yn enwedig mewn tai teras, er enghraifft, yng Ngwaelodygarth Road, Penydarren, a Dynevor Street, lle y gellid bod wedi bwriadu i'r brics melyn efelychu Carreg Caerfaddon. Fe'i defnyddiwyd hefyd mewn rhai tai â statws uwch, fel ar hyd The Walk. Defnyddiwyd Tywodfaen Pennant weithiau ar gyfer addumiadau yn ogystal ag fel y prif ddeunydd adeiladu wal.



Farewell Rock

Tywodfaen llawn cwarts yw'r Farewell Rock, y gellir gwahaniaethu rhyngddo a Thywodfaen Pennant drwy ei liw hufen goleuach a'i liw oren nodedig pan fydd wedi hindreulio. Mae ganddo frigiad llawer mwy cyfyngedig a dim ond mewn un adeilad yn yr ardal y'i defnyddiwyd — Eglwys Newlife, Swansea Road, Gellideg. Mae'n bosibl y dylanwadwyd ar y defnydd unigol hwn o Farewell Rock gan gysylltiadau Robert T. Crawshay Ysw., a gyflwynodd y tir a'r garreg ar gyfer ei hadeiladu yn 1860.

Graean Gwaelodol

Er mai Tywodfaen Pennant yw'r brif garreg adeiladu a welir ym Merthyr Tudful, defnyddiwyd rhai cerrig lleol eraill o bryd i'w gilydd. Tywodfaen llawn cwarts yw Graean Gwaelodol a gafodd ei gloddio'n bennaf fel ffynhonnell o silica ac fel deunydd anhydryn. Fe'i defnyddiwyd ar gyfer tai teras yn Graig Terrace a Victoria Street, Dowlais; hefyd ar gyfer Eglwys Sant Ioan (a ddymchwelwyd yn ddiweddar) a'r ficerdy gerllaw, ac adeiladau eraill yn Church Street, Penydarren. Ceir un enghraifft ar Fothergill Street, Penyard. Ym mhob achos, addumiadau brics a geir. Nid yw'r broses o ddosbarthu Graean Gwaelodol fel carreg adeiladu yn gysylltiedig â daeareg y creigwely ac felly caiff ei briodoli i ddewis yr adeiladwyr/datblygwyr, am ba bynnag reswm neu gysylltiad.

Calchfaen Carbonifferaidd

Ni cheir cynrychiolaeth dda o Galchfaen Carbonifferaidd yn ardal yr arolwg. Yng Nghastell Cyfarthfa y gwelir yr enghraifft fwyaf amlwg ohono. Yma, defnyddiwyd blociau mawr o galchfaen micritig llwyd ar gyfer wal gynhaliol y teras ar ochr orllewinol yr adeilad a hefyd ar gyfer yr adeilad mewnlenwi yn yr iard ar ochr ogleddol y castell. Mae gan lawer o'r calchfeini o frig gogleddol Pwll Glo De Cymru gymalau afreolaidd ac maent hefyd yn galed a brau. O ganlyniad, nid ydynt yn addas iawn ar gyfer addurno.



Tywodfaen Pennant oedd y prif ddeunydd adeiladu a ddefnyddiwyd yng Nghastell Cyfarthfa (uchod), ond defnyddiwyd Calchfaen Carbonifferaidd yma hefyd. Dangosir y castell yn sgleinio'n wyn yn y darlun hwn o tua 1840 (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde pellaf: Defnydd trawiadol o frics ar Gwaelodygarth Road (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Hen Dywodfaen Coch

Enghreifftiau prin a geir o ddefnyddio Hen Dywodfaen Coch fel carreg adeiladu. Mae'r enghreifftiau a gofnodwyd y tu allan i ardal yr astudiaeth: yn Nowlais, ar hyd Pant Road, Victoria Street a Pant Terrace, lle y defnyddiwyd tywodfaen coch dwl homogenaidd ar gyfer waliau, ffenestri ac addurniadau, ac o amgylch fframiau drysau. Mewn llawer o'r eiddo hyn mae conchrid wedi disodli'r addurniadau ar y ffenestri bellach. Mae hyn yn awgrymu nad oedd tywodfaen yn ddigon gwydn i hindreulio pan fyddai yn wynebu tuag allan.

Er mai deunyddiau adeiladu lleol a welwyd yn bennaf hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, newidiodd yr union ffordd y cawsant eu defnyddio yn ôl y ffasiwn. Mae'n debyg bod adeiladau cynharach wedi cael eu gwyngalchu neu eu rendro. Mae'n debyg mai rendr sgrafelloedd oedd y prif orffeniad a roddwyd ar waliau rwbél yn Thomastown yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft. O ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd y ffasiwn am garreg wedi'i hamlygu gydio, lle'r oedd angen mwy o ofal wrth greu haenau ac addurno, a rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddefnyddio deunyddiau eraill ar gyfer addurno.

Daeth rendr yn orffeniad poblogaidd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg: mae'r driniaeth sgrafelloedd yn amlwg iawn yn y tŷ cyntaf yn y ffotograff hwn o Alma Street, Thomastown (Hawlfraint y Goron: CBHC).



O ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gellid cludo deunyddiau adeiladu i'r ardal yn gymharol rhwydd ar reilffordd, ac adlewyrchir hyn yn y defnydd o Garreg Caerfaddon ar gyfer addurniadau. Er enghraifft, cwblhawyd Eglwys Crist, Aberdare Road, Heolgerrig, yn 1857 a chwblhawyd Eglwys Sant Ioan, Penydarren yn 1858, yn fuan ar ôl agor y rheilffordd o Gaerdydd. Galluogodd y rheilffordd i frics gael eu defnyddio'n fwy eang hefyd ac, yn araf, disodlodd garreg fel deunydd adeiladu. Er enghraifft, adeiladwyd rhan o Ysbyty Santes Tudful (1896–1900), a adeiladwyd yn wreiddiol fel ysbyty'r tloty, o frics melyn, ac erbyn

dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y defnydd o frics yn gyffredin mewn adeiladau newydd. Ceir enghreifftiau trawiadol o'i ddefnydd yng nghanol y dref o gwmpas troad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn 1932, nid oedd unrhyw chwareli cerrig adeiladu yn gweithredu yn ardal Merthyr Tudful: adeiladwyd Llyfrgell Carnegie (1935–36) o flociau conchrid tebyg i garreg nadd.



Cronoleg Adeiladu

Nid oes llawer o'r tai diwydiannol cynnar wedi goroesi ym Merthyr Tudful. Er bod sawl enghraifft wedi goroesi o'r 1830au, mae'r rhan fwyaf o'r stoc tai hanesyddol yn dyddio o gyfnodau diweddarach. Roedd y broses o adeiladu tai yn dilyn cylchoedd economaidd a chafwyd cyfnod ffyniannus yn y 1840au. Yn 1846, nododd *The Cardiff and Merthyr Guardian* 'the rage for building in Merthyr... continues with unabated vigour... sly little bits of ground concealed from public view by a sombre wall and accessible from the public streets only by narrow alleys are introduced to notice and forthwith become the sites of cottages'.⁵³ Ni lwyddodd llawer o adeiladau'r cyfnod hwn i oroesi rhaglenni clirio'r ugeinfed ganrif, ond, o'r 1850au, ceir cyfraddau goroesi mwy cyson o sawl cyfnod gwahanol o weithgarwch adeiladu. Yn Thomastown y gwelir y datblygiadau mwyaf nodedig ar raddfa fawr, a adeiladwyd rhwng 1852 a 1856, ac ym Mhenydarren ar ôl tua 1880, ond ceir enghreifftiau ym mhob rhan o'r ardal o brosiectau adeiladu ar raddfa fach o'r rhan fwyaf o ddegawdau o'r 1850au hyd at ddau ddegawd cyntaf yr ugeinfed ganrif. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, gwnaed llawer o waith adeiladu masnachol a dinesig hefyd, sydd wedi cyfrannu'n fawr at gymeriad canol y dref.

Roedd cronoleg y gwaith adeiladu yn yr ugeinfed ganrif hefyd yn dilyn ffyniant economaidd y dref. Prin iawn oedd y gweithgarwch a welwyd

rhwng y 1920au a'r 1950au, a chafwyd rhaglen ailddatblygu hir wedi hynny.

Arddulliau Adeiladu

Ym mhob rhan o'r ardal, ceir adeiladau unigol hardd, yn cynnwys eglwysi a chapeli balch. Mae eu harddull ac ansawdd y deunyddiau a'r gorffeniad yn dangos dyheadau ac adnoddau eu hadeiladwyr, ac yn dilyn ffyniant y dref drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r adeiladau nodedig hyn yn amlwg yn y treflun, a nodweddir gan adeiladau domestig a masnachol fel arall.

Adeiladu Domestig

Er y gall fod traddodiad o adeiladau anffurfiol wedi bodoli unwaith, mae datblygiadau sydd wedi goroesi yn tueddu i awgrymu proses wedi'i threfnu. Mae'r tai cynharaf sydd wedi goroesi o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe'u gwelir mewn rhesi teras byr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhan o ddatblygiad unigol. O fewn y rhesi hyn, tai unigol ffryntiad dwbl ac un ystafell o ddyfnder a geir yn bennaf heblaw lle y darparwyd llety ychwanegol o dan do 'catslide'. Mae'n debyg bod hwn yn fath o gynllun a ddeilliodd o draddodiadau adeiladu gwledig. Yn Upper Colliers Row y gwelir tarddiad gwledig y math hwn o dŷ amlycaf, lle'r oedd grisiau carreg wrth ochr y simneiau, ac roedd y toeon wedi'u gorchuddio â slabiau carreg yn wreiddiol.

Yn 1850, ystyriwyd mai'r tai ffryntiad dwbl oedd y rhai gorau. Crefftwyr medrus oedd yn byw ynddynt, ac fe'u disgrifiwyd gan y *Morning Chronicle* yn 1850 fel 'of two storeys, have four small sash windows, two above and one each side of the door'.⁵⁴ Yn y degawdau dilynol, disodlwyd y math hwn o dŷ gan un a oedd yn fwy addas ar gyfer amgylchiadau adeiladu trefol, lle'r oedd gofod yn brin. Disodlwyd y tŷ hir wyneb unigol ffryntiad dwbl gan dai dyfnder dwbl gyda chefn penodol yn ogystal â blaen. Erbyn y cyfnod hwn, gwelwyd dehongliadau mwy creadigol o'r tŷ teras: yn Thomastown, adeiladwyd terasau hir fel unedau unigol, gyda phwyslais ar ganol neu ben y rhes.

Roedd rhai enghreifftiau pwysig o fathau arbrefol o dai cynnar, yn cynnwys tai cefn wrth gefn a thai 'up-and-over', ond er bod cofnod o rai o'r rhain, nid oes yr un ohonynt wedi goroesi.



Bythynnmod ffrynt dwbl cynnar yn David Street (uchaf) a Lower Thomas Street (chwith) (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Isod: Datblygiad cynlluniedig: Stuart Street (Hawlfraint y Goron: CBHC).

*Triniaeth ffurfiol
i'r adeilad cornel ar
Upper Thomas Street
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Tai teras mwy gyda
gerddi blaen bach
ar Park Terrace (dde)
a Norman Terrace (isod)
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Wrth i economi a chymdeithas fwy amrywiol ddatblygu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd mathau mwy amrywiol o dai, gyda hierarchaeth glir a chyflawn: tai teras bach oedd yn agor yn syth oddi ar y stryd, tai gyda gerddi blaen, tai gyda ffenestri bae, a thai mwy o faint yn cynnwys filâu ar wahân a filâu pâr.

Adeiladwyd y rhan fwyaf o dai yn hapfasnachol, gan amrywio o resi bach i ddatblygiadau cynlluniedig mwy o faint. Adeiladwyd rhai tai gan

y gweithwyr eu hunain (yn enwedig drwy glybiau adeiladu), a darparwyd rhai gan y cwmnïau haearn, a oedd yn dal i fod yn berchen ar tua thraean o'r stoc tai yn y 1840au a'r 1850au. Yn yr ugeinfed ganrif, y cyngor oedd y darparwr tai mwyaf — yn ddiddorol, roedd y tai cyngor cynnar o fath tebyg i'r rhai a adeiladwyd yn hapfasnachol. Fodd bynnag, erbyn y 1920au, roedd tai cyngor wedi gosod safonau newydd, nid yn unig o ran dyluniad ond o ran cynllun a gofod agored hefyd.

*Datblygiad tai cyngor:
Council Street (chwith)
a Heol Bryn Padell (isod)
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*





Adeiladu Masnachol

Gwelir pensaernïaeth fasnachol benodol ar hyd y Stryd Fawr o eglwys Santes Tudful hyd at Bontmorlais yn bennaf, yn cynnwys y strydoedd byr sy'n arwain oddi arni: Glebeland Street, Victoria Street a John Street. Ymysg y themâu nodedig mae adeiladau mwy o faint, y mae llawer ohonynt yn drillawr, a sawl un ag ôl troed sylweddol; adeiladau nodweddiadol, fel y banciau trawiadol a'r siopau unigol ffasiynol; datblygiadau bloc mawr fel rhes teras neu floc trawiadol Siambrau Milbourne. Ceir cryn amrywiaeth hefyd o ran deunyddiau ac arddulliau, a'r defnydd afieithus o fanylion addurniadol. Hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, arddull clasurol, cynnil oedd i bensaernïaeth fasnachol, gan ddefnyddio rendr gyda manylion syml, fel y gwelir yn olion y datblygiad ffurfiol oedd yn gysylltiedig â sgwâr y farchnad ar hyd Victoria Street, yn ogystal â rhai eiddo ar y Stryd Fawr. Yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafwyd mwy o ryddid o ran arddull a arweiniodd at fwy o amrywiaeth o ddeunyddiau a gorffeniadau, yn cynnwys cerrig, brics a therracotta a fewnforiwyd, a hyd yn oed fframiau pren. Mae'n bosibl y defnyddiwyd dylanwadau estron o'r Eidal a Fflandrys, fel y teras talcen blaen ar y Stryd Fawr, Pontmorlais, ac mewn mannau eraill fel ymgais fwriadol i efelychu trefi Ewropeaidd gwych eraill.

Rhai o'r amrywiaeth o adeiladau masnachol yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Enghreifftiau o'r amrywiaeth o adeiladau masnachol yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cysylltiadau Hanesyddol

Mae gan rai adeiladau penodol gysylltiadau hanesyddol pwysig, yn cynnwys neuadd y dref, Vulcan House (safle gwasg argraffu Siartaid yn y 1840au), y Three Horse Shoes Inn (man cyfarfod Siartaid), a'r hen Lys Deisyfion yn Georgetown (y dywedwyd i Dic Penderyn domi i mewn iddo). Dywedir hefyd mai'r hen gyfneddfa lafur (adeilad y YMCA yn wreiddiol) hefyd oedd cyrchfan gorymdaith 10,000 o brotestwyr o Ddowlais yn 1938.

Mae gan strydoedd a gofodau'r dref gysylltiadau hanesyddol pwysig hefyd. Roedd traddodiad ymysg y dosbarthiadau gweithiol o fynd am dro

anffurfiol ar nos Sadwrn a nos Lun, rhwng wyth a deg o'r gloch, ond roedd gorymdeithiau mwy ffurfiol hefyd. Un o'r llwybrau poblogaidd ar gyfer y gorymdeithiau hyn oedd ar hyd y Stryd Fawr, Pontmorlais, gan mai dyna oedd y prif gyswllt rhwng diwydiant Penydarren a Dowlais, a chanol y dref. Yn 1910, cafodd y Cymol David Rees Lewis yr angladd milwrol mwyaf erioed yng Nghymru; roedd yr orymdaith dros filltir o hyd o Benydarren a thrwy Bontmorlais. Dyma'r llwybr a ddilynai syrcasau amrywiol hefyd; ceir hen ffilm a gymerwyd tua 1940au, sy'n dangos eliffantod yn gorymdeithio i lawr y stryd.⁵⁵ Ar nodyn mwy difrifol, yn 1938, y ffordd i lawr Cwm Morlais oedd y llwybr a ddilynodd yr orymdaith i'r gyfneddfa lafur.

Ardaloedd â Nodweddion

I. Canol y Dref: y Stryd Fawr a Phontmorlais

*'Buildings of reckless and rollicking eccentricity.'*⁵⁶

Cefndir Hanesyddol

Rhan o argraffiad cyntaf y map Arolwg Ordnans yn 1875, sy'n dangos canol tref Merthyr Tudful.

Mae'n debyg bod craidd bach o aneddiadau o'r cyfnod canoloesol wedi'u crynhoi o amgylch yr eglwys. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, os nad yn gynharach, roedd hyn yn cynnwys o leiaf un tŷ sylweddol.

Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, ysgogodd y cyfnod diwydiannu ddatblygiad anheddu cyflym yn yr ardal hon, braidd yn ddamweiniol i ddechrau o amgylch patrwm lleiniau a etifeddwyd o unedau afreolaidd o dir, ac yn ymestyn ar hyd y Stryd Fawr. Ildiodd hyn i broses ddatblygu fwy trefnus ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda'r broses o ddatblygu Glebeland (i'r gorllewin o'r Stryd Fawr, rhwng Swan Street a Castle Street) fesul cam fel ardal gydlynol gyda strydoedd lletach — Wellington Street (Clive Street yn wreiddiol), Victoria Street (Thomas Street yn wreiddiol) a Graham Street.



Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (25 modfeddi) — (h) a hawl cronfa ddata 'Howlsist' y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2014)



Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo erbyn 1804 ac fe'i cwblhawyd yn effeithiol drwy sefydlu'r farchnad yn 1838, canolbwynt sgwâr trefol cain. Roedd Victoria Street yn rhan o hyn: 'having on one side a long row of stucco-fronted shops exemplifying a charming sedateness which still reflects the regency influence'.⁵⁷

Efallai oherwydd patrymau perchenogaeth gwahanol, roedd datblygiadau i'r gogledd o Castle Street (rhwng 1836 a 1875) ac i'r de-ddwyrain o'r eglwys yn llawer mwy cyfyng.

Datblygiad preswyl a gafwyd ar hyd y Stryd Fawr i ddechrau ond datblygodd rôl fasnachol yn fuan fel y llinyn a gysylltai ardaloedd preswyl gwahanol. Yn sgil y newid swyddogaeth hwn, gwelwyd gwaith ailadeiladu helaeth mewn sawl cam gwahanol. Prin yw'r adeiladau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi goroesi ar hyd ei llinell, os o gwbl, ond ceir rhai o ganol y ganrif, a llawer mwy o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Gwelwyd newid tuag at fasnach wirioneddol hefyd. Yn y broses, adeiladwyd dros sawl iard gefn a chollwyd mân ddefnyddiau diwydiannol. Erys etifeddiaeth o ddefnydd cynharach, er enghraifft, yn Mill Lane ac yn yr aliau a arferai arwain yn uniongyrchol at iardiau cefn gweithiol.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y Stryd Fawr wedi cyfnerthu ei rôl fel canolbwynt dinesig, crefyddol a diwylliannol yn y dref. Roedd yno grynhoed o gapeli ac eglwysi, yn ogystal â neuadd y dref, a adeiladwyd yn 1896 ar ôl i Ferthyr Tudful ddod yn gyngor dosbarth trefol.

Dylanwadodd trafndiaeth hanesyddol yn gryf ar yr aneddiadau yma. Mae llinell y Stryd Fawr yn dilyn llwybr cynnar ac, yn union i'r dwyrain, mae llinell tramffordd Penydarren (1804) yn nodi ffin wirioneddol rhwng canol y dref a Thomastown y tu hwnt iddi. O'r 1840au, crëodd y llinellau rheilffordd a'r orsaf ffin hyd yn oed yn gryfach i'r dwyrain.

Dim ond rhywfaint o'r patrwm stryd a phatrwm datblygu hwn sydd wedi goroesi'r gwaith ailddatblygu a welwyd yn yr ugeinfed ganrif: cafodd rhannau helaeth o Glebeldau eu hailwampio, cafodd Caedraw a'r ardal i'r gogledd o Castle Street eu hailddatblygu'n eang (yr ail rhwng 1959 a 1965), a chafodd yr ardal i'r de-ddwyrain o'r eglwys ei hail-lunio mewn cynlluniau ffyrdd olynol.

Gweddillion sidetrwydd swynol Stryd Victoria a adeiladwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Rhedai llinell tramffordd Penydarren yn union y tu ôl i'r Stryd Fawr, Pantmorlais (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Uchod: Ffotogyfosodiad o'r Stryd Fawr, Pontmorlais (Hawlfraint y Goron CBHC).

Nodweddion Adeiladu

Dileodd y gwaith ailddatblygu yn yr ugeinfed ganrif ran helaeth o'r patrwm strydoedd hanesyddol, ond mae'r Stryd Fawr, Swan Street, Glebeland Street a Castle Street yn enghreifftiau pwysig sydd wedi goroesi sy'n cysylltu'r ardal â'i gorffennol o hyd; mae Caedraw Road hefyd yn dilyn llinell hanesyddol Picton Street.

Mae gwaith ailddatblygu wedi ynysu'r eglwys o'i chyd-destun gwreiddiol yng nghanol y dref (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Er gwaethaf y gwaith ailddatblygu, erys etifeddiaeth bensaernïol gref yn yr ardal o hyd o gyfnod datblygu Merthyr Tudful yn y bedwaredd

ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Prin yw'r nodweddion gweledol sydd wedi goroesi o gyfnod cynharach (er bod y Crown Inn yn dyddio o 1785), ond ceir etifeddiaeth glir o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn cynnwys sawl bloc ar y Stryd Fawr, y Wynham Arms ar Glebeland Street, a'r rhan o Victoria Street sydd wedi goroesi. Daw'r cyfraniad mwyaf i nodweddion pensaernïol y dref o'r buddsoddiad sylweddol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ceir enghreifftiau gwych o adeiladau o tua 1900 ar hyd y Stryd Fawr, ar Glebeland Street a John Street.



Mae'r amrywiaeth o gyfnodau adeiladu yn amlwg yn yr amrywiaeth sylweddol o ddeunyddiau a welir. Hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gorffeniadau rendr a welwyd yn bennaf, gyda manylion syml yn dilyn traddodiadau clasurol. Disodlwyd hyn mewn ffasiwn bensaernïol gan garreg wedi'i hamlygu, brics a therracotta, yn aml wedi'u defnyddio ar y cyd ac mewn amrywiaeth o arddulliau. Ffafiwyd carreg wedi'i mewnfurio hefyd ar gyfer rhai adeiladau masnachol statws uchel fel Banc Barclays a adeiladwyd yn 1901–02, sy'n defnyddio gwenithfaen du a Charreg Portland wen.

Nodweddir canol y dref gan batrwm datblygu bywiog, yn bennaf mewn rhesi byr neu adeiladau



Uchod: Y Crown Inn yw un o'r adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi ar y Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Mae'r Wyndham Arms yn enghraifft dda o adeilad trefol o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Gwelir statws yr adeilad banc hwn yn y defnydd o ddeunyddiau drud wedi'u hallforio (Hawlfraint y Goron: CBHC).

unigol sylweddol. Daeth adeiladu masnachol yn fwy ymwithgar wrth i'r ganrif fynd rhagddi: ceir adeiladau banc a siopau arbennig o grand ar y Stryd Fawr. Mae Siambrau Milbourne yn enghraifft dda o adeilad masnachol amlwg mawr, ond mae gan hyd yn oed y Temperance

Hall ar John Street (1852, ond a ailadeiladwyd yn 1888) ffryntiad â manylion cryf. Er gwaethaf ei unigoliaeth gref o ran arddull, mae ansawdd treflun reoledig i waith datblygu yma, gyda llinellau ac uchder cyson i'r adeiladau, a thriniaeth bensaernïol i'r corneli.

Dde: Mae adeiladau unigryw iawn yn rhoi bywiogrwydd i'r Stryd Fawr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde pellaf: Yr hen Temperance Hall ar John Street, a adeiladwyd yn 1852 ac a ailadeiladwyd yn llwyr yn 1888 (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Rhodddwyd triniaeth bensaernïol i gornel yr adeilad masnachol hwn o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sydd hefyd yn enghraifft dda o'r ffasiwn ar gyfer rendr yn y cyfnod hwnnw (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Mae'r rhes hon ym Mhenmorlais yn debyg i arddulliau adeiladu gogledd Ewrop (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Adeilad masnachol Edwardaidd cain ar Stryd Glebeland (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Mae pwysau masnachol wedi arwain at golli sawl ffyrntiad siop hanesyddol, ond mae rhai enghreifftiau da wedi goroesi, yn bennaf y tu allan i ardal y gweithgarwch masnachol mwyaf, er enghraifft, Tŷ Jonathan ar Glebeland Street, a rhai o'r adeiladau ar y Stryd Fawr, Pontmorlais. Ceir cyfradd oroesi well ar gyfer manylion gwreiddiol ar lorïau uchaf.

2. Thomastown a Phenyard

Cefndir Hanesyddol

Roedd y datblygiadau cyntaf i'r dwyrain o ganol y dref a'r aneddiadau llinellol ar hyd y Stryd Fawr a Phontmorlais yn dilyn llinell tramffordd Penydarren, lle'r oedd bythynnod wedi'u hadeiladu yn Cobden Place erbyn 1814. Parhaodd y gwaith datblygu ar hyd ochr ddwyreiniol y dramffordd erbyn 1836, ond nododd hyn derfyn dwyreiniol aneddiadau ffurfiol am beth amser. Datblygwyd yr aneddiadau cynlluniedig y tu hwnt i'r fan hon rhwng 1851 a 1856, gan ffurfio grid syml gyda Thomas Street ac Union Street, a gysylltwyd gan Church Street, New Castle Street ac Alma Street. Erbyn 1876, roedd y llethrau y tu hwnt hefyd wedi cael eu datblygu gyda thai mwy â thir o'u hamgylch ar hyd Bryntirion Road. Tua'r gogledd roedd tloty'r undeb, a ddechreuwyd yn 1853 ac a estynnwyd yn 1870, a'r ysbyty a adeiladwyd yn 1896–1900.



*New Castle Street (uchaf)
ac Union Terrace ar
Union Street (isod),
rhan o anbeddiad
cynlluniedig Thomastown
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Ni ddatblygwyd yr ardal i'r dwyrain o Fryntirion Road tan yr ugeinfed ganrif, a chafodd y gwaith datblygu ei lywio gan ddefnydd tir amaethyddol a diwydiannol a fodolai eisoes, ffyrdd a thramffyrdd a fodolai eisoes. Daliadau amaethyddol Cae Mari Dwn a'r Llys a arferai fod yn yr ardal hon, ynghyd â thirwedd gloddiol a oedd yn gysylltiedig â Gwaith Haearn Penyardren (o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at 1859 pan gaeodd y gwaith). Roedd y dirwedd hon yn cynnwys chwareli a thomennydd ar hyd Queens Road, a haearnfaen a gweithfeydd glo ymhellach i'r dwyrain, gyda thramffordd yn eu cysylltu â'r gwaith haearn ym Mhenyardren. Tai cymdeithasol a ddatblygwyd

yma yn bennaf, ynghyd â chyfleusterau hamdden ac addysgol. Rhwng 1910 a 1915, datblygwyd The Parade, Argyle Street a Summerhill Place (roedd Summerhill Place yn dilyn ffin hen gae), ynghyd â Woodland Terrace a Kingsley Terrace, St Tydfil's Avenue a Queens Road. Crëwyd Parc Thomastown yn 1900 ar safle hen chwarel.

Datblygodd Penyard rhwng 1898 a 1915 o'i gychwyniad fel rhesi o fythynnod diwydiannol a oedd yn gysylltiedig â Gwaith Haearn Penyardren, yr oedd ei safle yn union i'r gogledd. Nid oes yr un o'r tai cynnar wedi goroesi ac mae safle'r gwaith haearn wedi'i ailddatblygu'n helaeth hefyd.

Nodweddion Adeiladu

Rhai o'r tai cynharaf yw'r rhesi teras isel ar hyd Tramroadside, lle mae bythynnod bach ffryntiad unigol a dwbl yn crymu i ddilyn llinell tramffordd Penydarren. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u rendro bellach, ond mae'n debyg mai gwyngalch oedd amynt yn wreiddiol. Maent wedi'u hadeiladu gefn wrth gefn bron â thai ar Lower Thomas Street, sydd hefyd â ffryntiad dwbl ac mae'n debyg eu bod hefyd yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Y prif ddatblygiad yn Thomastown yw cynllun ffurfiol o dai teras mewn rhesi hir gyda chyfansoddiad unedig, weithiau gyda chymesuredd pendant oherwydd y defnydd o dalcenni canol a phen, neu wedi cael triniaeth rythmig gref drwy'r defnydd o lin-gwrs parhaus, wedi'i bwysleisio gan flociau talcen pen cytbwys. Mae'r cyfuniad o gapel a thai ar New Castle Street yn enghraifft arbennig o dda o gynllun unedig.



Mae gan fythynnod cynnar ar Lower Thomas Street gymeriad cynhenid sy'n gwrthgyferbynnu ag ymddangosiad mwy soffistigedig y terasau o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Manylion clasurol amlwg
ar New Castle Street
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Gorffeniad rendr llyfn
a manylion clasurol
syml ar dai ar Lower
ac Upper Thomas Street
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Mae'r Capel Undodaidd
ar Lower Thomas
Street yn un o sawl
adeilad crefyddol cain
yn yr ardal (Hawlfraint
y Goron: CBHC).*

Mae'r manylion clasurol a'r gorffeniad rendr ar y tai yma yn nodweddiadol o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er hyn, roedd cyfansoddiad unedig cyffredinol yn caniatáu manylion amrywiol a cheir mwy nag un dyluniad o ffrâm drws. Gwnaed gwaith adnewyddu helaeth ar y manylion a'r gorffeniad, ond mae rhai enghreifftiau o rendr llinelllog wedi goroesi. Yn gyffredinol, arddull clasurol sydd i'r filâu mwy o faint yn y dwyrain — The Rectory, Sunny Bank Villa, Bryn-heulog a Springfield — gyda rendr a thoeon clip. Ceir cyfres bwysig o adeiladau crefyddol a chyhoeddus mawr yn yr ardal, yn cynnwys y synagog (1872-75), Capel Wesleiaidd Cymreig Shiloh, y Capel Undodaidd ar Lower Thomas Street a hen dloty'r undeb a'r ysbyty.



3. Twynyrodyn, yn cynnwys Ysgubor Newydd a Phenyrheol

Cefndir Hanesyddol

Mae Twynyrodyn yn nodi llwybr cynnar sy'n cysylltu'r anheddiad craidd gwreiddiol o amgylch eglwys Santes Tudful gyda llwybr hanesyddol a ddilynai'r tir uchel i'r dwyrain o afon Taf. Gwnaed mân waith datblygu o ddiwedd y ddeunawfed ganrif (mae'r dyddiad 1788 ar Eglwys Bedyddwyr Cymreig Seion yn awgrymu bod hwn yn anheddiad a oedd eisoes yn tyfu ar y pryd). Gan ddringo'r allt o'r eglwys yn raddol, roedd y gwaith datblygu ar ochr ogleddol y ffordd i ddechrau, yn cynnwys Coedcae Court yn y cefn. Parhaodd y gwaith datblygu llinellol ac fe'i ategwyd gan strydoedd newydd tua'r dwyrain yn dechrau yn y 1860au a'r 1870au gyda William Street, Mary Street a Rees Street, ac yn parhau gyda Dyke Street erbyn 1905 a Hampton Street erbyn 1918.

O'r 1850au, roedd Rheilffordd Dowlais yn nodi ffin anheddu gref tua'r de a dim ond ar ddechrau'r ugeinfed ganrif y croesodd y gwaith datblygu'r

llinell hon pan ddatblygwyd Ysgubor Newydd. Y tu hwnt i'r ardal hon, roedd ardal gloddio fawr, sydd wedi'i hadfer yn bennaf bellach. Datblygodd Penyrheol ar ddarnau o dir amaethyddol a safleoedd cloddio.

Nodweddion Adeiladu

Mae Twynyrodyn yn ddatblygiad llinellol nodedig mewn cyfres o unedau byr ac amrywiol sy'n dilyn y ffordd serth i fyny'r allt o'r eglwys. Mae'r cymysgedd amrywiol o fathau o dai yn cynnwys sawl rhes o dai ffryntiad dwbl, sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'n debyg, er mai'r tai teras dyfnder dwbl a ffryntiad unigol mwy confensiynol a welir fwyaf. Ceir cryn amrywiaeth o ran maint a gorffeniad, gan amrywio o rendr i garreg wedi'i hamlygu ac o fanylion clasurol syml mewn fframiau drysau a ffenestri i ffryntiadau eithaf diaddum. Ymdriniodd terasau gwahanol â'r safle serth yn wahanol gyda rhai wedi'u grisio i fyny'r allt; mae llinellau toeau rhai eraill ar ongl i ddilyn y llethr. Mae'r strydoedd bob ochr i'r ffordd fawr yn fwy unffurf, gan adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi cael eu hadeiladu fel datblygiadau unigol yn bennaf. Mae Coedcae Court yn enghraifft brin sydd wedi goroesi o fythynnod o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n dyddio o gyfnod cyn 1836.

Bythynnod o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghwrt Coedcae (Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Patrum adeiladu
amrywiol Twynyrodyn
Road (Hawlfraint y
Goron: CBHC).*



4. I'r De o Ganol y Dref: Ardal Plymouth Street

Cefndir Hanesyddol

Lleolwyd Gwaith Haeam Plymouth i'r de o'r ardal hon. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladwyd tai ar ffurf datblygiadau hirgul ar hyd Plymouth Street fel un o'r prif wythiennau a gysylltai ganol y dref â'r gwaith haeam ac anheddiad Pentrebach y tu hwnt iddo. Hon oedd tollffordd Plymouth tua 1771. Yn 1841, adeiladwyd y Taff Vale Railway ar hyd glan ddwyreiniol yr afon hyd at ei fan terfyn ar ben gogleddol Plymouth Street. Roedd tramffordd Penydarren yn brif wythien bwysig arall ac mae'r llwybr wedi goroesi fel Tramroadside South. Rhedai nant fwydo Plymouth, a gariai ddŵr o afon Taf i'r gwaith haeam, i'r gorllewin o'r tai ar hyd Plymouth Street. Defnyddiwyd yr ardal rhyngddi a'r Taff Vale Railway ar gyfer tomennu hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan gafodd ei hailddatblygu. Adeiladwyd Warlow Street, Ernest Street a Clare Street ar safle lleiniau hir y tu ôl i derasau damweiniol ar hyd y ffordd fawr, y nant fwydo, a hen domennydd. Yn ddiweddarach, dilëwyd rhywfaint o'r datblygiad llinell ar hyd Plymouth Street hefyd. Saif datblygiad tai o'r ugeinfed ganrif yn Milbourne Close ar safle Tŷ Plymouth.

Nodweddion Adeiladu

Mae datblygiad cysylltiadau trafniadaeth ddiwydiannol cynnar wedi rheoli cynllun yr ardal. Mae tollffordd Plymouth (Plymouth Street) a thramffordd Penydarren (Tramroadside South bellach), a oedd yn ffinio ag afon Taf a'r rheilffordd yn y gorllewin, wedi goroesi fel llwybrau cyfunion o'r gogledd i'r de. Er yr arferai'r rhain fod yn brif wythiennau ar gyfer datblygu, mae'r brif ardal lle mae tai traddodiadol wedi goroesi mewn bloc o strydoedd rhwng y ffordd fawr a'r rheilffordd, a adeiladwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel rhesi teras hir o dai ffyrtiad unigol.

Mae gan ddatblygiad tai cynlluniedig Ernest Street a Clare Street unfurfiaeth o ran maint a chynllun, gyda rhesi cyfocrog wedi'u gwahanu gan lôn gefn. Er yr holl addasu a wnaed, yn cynnwys newidiadau i orffeniad waliau a thoeon, mae rhai manylion

gwreiddiol wedi goroesi yma ac acw, yn cynnwys mowldin capan a rendr codi o amgylch ffenestri a drysau.

Ceir terasau tebyg ar hyd Plymouth Street (Eastfield Terrace), lle mae gan y tai erddi ffyrt bach ac mae gan rai ffenestri bae, ac ar Railway Terrace. Mae rhai o'r tai hyn wedi cadw eu gorffeniad gwreiddiol o garreg wedi'i hamlygu, gydag architraffau garw nodedig ar ddrysau a ffenestri.

5. Cyfarthfa: Parc a Gwaith Haeam

Cefndir Hanesyddol

Er nad Cyfarthfa oedd y gwaith haeam cyntaf i gael ei sefydlu, datblygodd rôl ddigryffelyb yn economi a thirwedd Merthyr Tudful. Wedi'i sefydlu gan Anthony Bacon yn 1765, cymerodd Richard Crawshay yr awenau yn 1794 a bu'n gyfrifol am gynnydd cyflym mewn cynhyrchiant yn cynnwys sefydlu'r gwaith yn Ynysfach. Parhaodd y gwaith haeam yng Nghyfarthfa i ehangu yn y 1830au a bu buddsoddiad mawr yn y 1880au pan adeiladwyd ffwrmeisi newydd er mwyn cynhyrchu dur. Caeodd y gwaith yn 1910, a gadawyd y safle'n wag yn 1921. Roedd y gwaith haeam ei hun yn cynnwys safle diwydiannol eang a chymhleth ar bob ochr i'r afon, yn cynnwys gwaith prosesu a gorffen yn ogystal â'r ffwrmeisi eu hunain. Cyflenwyd deunyddiau crai iddo, yn cynnwys dŵr, yn bennaf o'r dirwedd gloddiol tua'r gorllewin, ond hefyd o'r Gurnos tua'r gogledd. Roedd llwybrau trafniadaeth a gludai'r deunyddiau hyn yn cydgyfarfod yn y gwaith haeam, ac roedd llwybrau eraill yn cludo'r nwyddau oddi yno. Camlas Morgannwg oedd y brif enghraifft o hyn, ac roedd man terfyn y gamlas gerllaw'r gwaith.

Os oedd Gwaith Haeam Cyfarthfa yn galon weithredol i dirddaliadaeth eang, y castell a'r parc oedd ei gyfatebydd domestig. Yn nyddiau cynnar y gwaith haeam, roedd y teulu Crawshay yn byw yn Nhŷ Cyfarthfa, a adeiladwyd gan Anthony Bacon yn agos at y gwaith ei hun, ond o tua 1810 gwnaethant symud i dŷ ymhellach i ffwrdd yng Ngwaelod y Garth. Roedd William Crawshay II yn gyfrifol am ehangu'r gwaith haeam yn sylweddol, ac adlewyrchwyd hyn yn yr ochr ddomestig drwy adeiladu'r castell a sefydlu'r

parc. Adeiladwyd y plasty yn 1825 i gynllun Robert Lugar fel castell ffug mewn arddull rhamantaidd yr ystyriwyd ei fod yn addas ar gyfer y lleoliad, a oedd yn fwriadol yn edrych dros y gwaith haearn. Roedd y parc gwreiddiol a oedd yn gysylltiedig â'r tŷ yn eang iawn gyda 600 erw (245.4 hectar) a chadwyd ei graidd addurniadol fel parc cyhoeddus pan gaffaelwyd y parc gan y gorfforaeth leol yn 1909. Roedd y parc yn cynnig lleoliad mewn tirwedd briodol ar gyfer y plasty ac yn wrthled wledig i'r dirwedd ddiwydiannol y tu hwnt iddo, ond roedd hefyd yn cyflenwi adnoddau ar gyfer y gwaith haearn — roedd y llyn yn dyblu fel cronfa ddŵr ar gyfer y cyflenwad i'r gwaith,

a gludwyd gan ddefnyddio ffrwd a groesai'r afon ar Bont y Cafnau.

Nodweddion Adeiladu

Mae olion ffwrmeisi Cyfarthfa yn henebion trawiadol hynod i ddiwydiant gwyth yn ei amser, ond mae'r holl strwythurau cysylltiedig islaw ac uwchlaw'r ffwrmeisi ar bob ochr i'r afon wedi diflannu. Saif ystad ddiwydiannol ar yr ardal weithiol ar lan dwyreiniol afon Taf, ond mae'r tir yn union o amgylch y ffwrmeisi yn wag a diffaith o hyd. Mae tystiolaeth archaeolegol helaeth o'r hen ardal weithiol islaw'r ffwrmeisi wedi cael ei hadfer ac mae cryn botensial am fwy.

Golygfa o'r castell o'r awyr, yn dangos y castell, y parc a'r llyn, a oedd yn rhan o'r cyflenwad dŵr ar gyfer y gwaith haearn yn wreiddiol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Safle Gwaith Haearn Cyfarthfa o'r awyr yn 2007 (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Darlun o Gastell Cyfarthfa a wnaed tua 1835 gan Henry Gastineau (Gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Mae ymddangosiad pictwresg Fferm Pandy yn dangos ei rôl fel rhan o ystad Cyfarthfa (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Plasty mawr yw Castell Cyfarthfa mewn arddull castellaidd pictiwresg. Mae'r cyfadeilad yn cynnwys y bloc stablau gwreiddiol ac adeiladau allan eraill, yn codi uwchlaw blaengwrt teras. Mae'r parc ei hun wedi cadw sawl elfen o'i gynllun a'i gyfansoddiad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn cynnwys y llyn a chyfres o gronfeydd dŵr i'r gogledd-ddwyrain o'r tŷ.

Tua'r gorllewin, mae rhan o'r wal derfyn wreiddiol hefyd wedi goroesi yn ogystal â Fferm Pandy sydd bron gyferbyn â'r brif fynedfa. Hon oedd un o brif ffermydd yr ystad, a ailfodelwyd i greu cyfansoddiad pinctiwresg pan adeiladwyd y castell. Roedd y fferm, ynghyd â'r gwaith haearn, yn elfen bwysig o'r olygfa o'r castell yn ogystal â'i economi.

6. Williamstown, Cae Pant Tywyll a Morgantown

Cefndir Hanesyddol

Williamstown oedd yr anheddiad â'r cysylltiadau agosaf â Gwaith Haearn Cyfarthfa. Dechreuodd y gwaith datblygu ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac roedd wedi'i gwblhau fwy neu lai erbyn 1836. Dechreuodd fel datblygiad llinellol ar hyd Brecon Road, a oedd yn bodoli erbyn 1814. Mae enghreifftiau o'r datblygiad cynnar hwn wedi goroesi yn Quarry Row a Castle Square. Roedd Bethesda Street yn brif wythien arall ar gyfer datblygiad llinellol, yn wreiddiol yn dilyn llinell tramffordd o Waith Haearn Penydarren i'r gamlas, a groesai'r afon ar Bont Jackson. Erbyn 1836, roedd y patrwm anheddu llinellol gwreiddiol wedi dechrau ehangu ar flociau bach o dir i'r naill ochr, yn cynnwys yn ardal chwarel fach yn y Cwâr (a ffiniai â Tydfil's Well Street a Gwaelodygarth Road). Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd Morgantown hefyd wedi'i gynllunio. Ffurfiodd y tir i'r dwyrain o Tydfil's Well Street ran o Barc Penydarren ac ni chafodd ei ryddhau ar gyfer adeiladu arno tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan sefydlwyd patrwm grid newydd o strydoedd (gweler Penydarren tt. 70–76).

Mae'r rhan fwyaf o'r patrwm datblygu hanesyddol i'r gogledd o Brecon Road wedi goroesi, fel yn Morgantown i'r de, ond ailddatblygwyd y rhan fwyaf o Williamstown yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif, ac eithrio un teras hir (22–30 Cyfarthfa Road, a adeiladwyd rhwng 1836 a 1851). Mae rhwydwaith o ffyrdd newydd a gwaith ailddatblygu rhwng Bethesda Street a Nant Morlais wedi newid y cysylltiad uniongyrchol gwreiddiol oedd gan yr ardal hon â glan orllewinol afon Taf, dros Bont Jackson.

Nodweddion Adeiladu

Mae'r bythynnod cynnar yn y Cwâr a Morgantown yn fythynnod bach ffyrntiad dwbl a ffyrntiad unigol yn bennaf, ac mae rhai ohonynt wedi cadw eu ffyrntiad carreg wedi'i hamlygu. Mae'r terasau yn y Cwâr yn anffurfiol a chlôs, ac mae llawer o'r tai yn fach iawn, ond mae gan Morgantown gynllun mwy ffurfiol sy'n cynnwys nodweddion sy'n awgrymu ffurfioldeb o ran cynllun, yn cynnwys toeon clip ar sawl cornel a manylion eraill ar gomeli. Ceir gwaith maen haenog ac wedi'i sgwario o ansawdd da ar y tai yma.

Gwelir datblygiadau amrywiol ar Brecon Road sy'n nodweddiadol o ddechrau twf llinellol. Mae ei therasau hir wedi'u crynhoi fel sawl datblygiad ar wahân gyda dyddiadau, maint, deunydd a gorffeniad amrywiol.

Mae'r teras hwn yn Williamstown yn enghraifft bwysig o dai diwydiannol cynnar oedd â chysylltiad uniongyrchol â Gwaith Haearn Cyfarthfa (Haulfaint y Goron: CBHC).





*Tai diwydiannol cynnar
yn Castle Square
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Datblygiad cynnar
nodedig yn Grawen
Terrace a Mount Street
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Rhesi o fythynnod yn
agos at ei gilydd yng
Nghae Pant Tywyll
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Datblygiad cynlluniedig
ffurfiol ym Morgantown
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*

7. Penydarren

Cefndir Hanesyddol

Sefydlwyd Gwaith Haeam Penydarren gan Francis Homfray yn 1784. Roedd yn ganolbwynt ystad a leolwyd ar bob ochr i Nant Morlais. Defnyddiwyd y tir i'r de i gael deunyddiau crai i gyflenwi'r gwaith haeam, ond cadwyd y tir i'r gogledd fel lleoliad parcdir ar gyfer Tŷ Penydarren, a adeiladwyd ar gyfer y teulu Homfray yn 1786. Defnyddiwyd y tŷ fel ysgol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe'i dymchwelwyd yn 1966.

Hwn oedd y gwaith haeam cyntaf i gau, yn 1859. Roedd y safle wedi'i ddinistrio erbyn y 1870au ac yn ddiweddarach adeiladwyd gorsaf dram ar ran ohono (mae bellach yn ystad ddiwydiannol) ynghyd â thai (yn cynnwys Trevithick Street). Parhaodd y gwaith mwynau i'r de i gael ei ddefnyddio i mewn i'r ugeinfed ganrif a datblygwyd y parc i'r gogledd yn raddol fel maestref newydd fawr.

Roedd Parc Penydarren yn ffinio i'r de-orllewin ac i'r de-ddwyrain gyda Brecon Road a Phontmorlais Road, ac i'r gogledd gyda Gwaelodygarth Road a Gwaelodygarth Lane (lle'r oedd rhywfaint o ddatblygiad tai llinellol). Pan roddwyd y gorau i ddefnyddio Tŷ Penydarren at ddibenion preswyl,

Mae datblygiadau tai cynlluniedig yn nodweddiadol o Benydarren; mae Edgar Street yn enghraifft nodweddiadol (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Adeiladwyd Trevithick Street ar safle Gwaith Haeam Penydarren ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hawlfraint y Goron: CBHC).



datblygwyd y rhan fwyaf o'r tir ar gyfer tai o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd Stuart Street, Cromwell Street a Tudor Terrace wedi'u datblygu erbyn 1905 ac roedd y rhwydwaith o strydoedd i'r gogledd wedi'i gwblhau erbyn 1919. Yn sgil datblygu The Walk a'r terasau i'r gorllewin, The Grove, a'r ardal o amgylch Meyrick Villas a West Grove, yn union i'r de o Gwaelodygarth Road, sefydlwyd y rhan hon o Benydarren fel maestref dosbarth canol bwysig erbyn 1919. Gellir canfod elfennau o ddefnydd tir cynharach yn y patrwm strydoedd, lle mae Gwaelodygarth Road wedi goresgyn, a lle mae'r newid sydyn mewn aliniad ar Llewellyn Street a Meyrick Villas yn nodi llinell ffin hen gae.

Yn y cyfamser, ymhellach i'r gogledd, roedd anheddiad gwreiddiol Penydarren, a ddatblygodd ar ochr arall Nant Morlais gyferbyn â'r gwaith haearn, yn cynnwys datblygiad llinellol ar hyd y Stryd Fawr a Church Street, lle mae rhesi bach



Uchod: Mae unffurfiaeth gyffredinol Stuart Street yn rhoi cymeriad cryf iddi (Hawlfraint y Goron CBHC).



o fythynnod wedi goroesi hyd heddiw. Roedd y tir y tu ôl i'r ardal hon yn rhan o dirwedd amaethyddol a gadwyd fel rhan o ddaliadau Castell Cyfarthfa a Thŷ Penydarren, ac ni chafodd ei ryddhau i'w ddatblygu tan flynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ogystal â gwaith adeiladu tai hapfasnachol, cynlluniedig, dyma ble yr adeiladodd y cyngor bwrdeistref ei dai cyngor cyntaf. Datblygwyd prosiectau tai cymdeithasol mwy o faint i'r gogledd o'r ardal, yn enwedig yn y 1920au.

Nodweddion Adeiladu

Ar hyd Church Street, Penydarren y gwelir yr enghraifft gynharaf o dai sydd wedi goroesi, lle mae'r rhesi hir yn cynnwys tai o feintiau gwahanol, er nad oes unrhyw orffeniadau na manylion gwreiddiol wedi goroesi. Yn y strydoedd llethrog y tu ôl i'r ardal hon, mae'r tai teras wedi'u cynllunio'n fwy unffurf mewn ffyrdd rheolaidd gyda lonydd cefn. Mae'r tai eu hunain wedi cael eu haddasu'n sylweddol gyda rendr a gro chwipio modern, ond ceir ambell enghraifft o orffeniad rendr addumiadol sydd wedi goroesi o amgylch drysau a ffenestri, a rhai simneiau sydd wedi goroesi. I'r gwrthwyneb, ceir gorffeniad syndod o unffurf ar Council Street ac Urban Street, gyda'u waliau Tywodfaen Pennant ag wyneb o graig wedi'i amlygu; mae simneiau i'w gweld o hyd ar eu toeon ar oleddf. Mae'r

Chwith: Enghreifftiau trawiadol o'r tai mwy a adeiladwyd ym Mhenydarren ar ddechrau'r ugeinfed ganrif: Meyrick Villas (uchaf) a West Grove (isod) (Hawlfraint y Goron: CBHC).



terasu hwn o dai yn agor yn uniongyrchol oddi ar y stryd, ond, ar hyd Gwaelodygarth Road, mae gan rai o'r terasau erddi blaen bach a ffenestri bae. Yma, yn aml caiff gorffeniad Tywodfaen Pennant ei gyfuno ag addurniadau brics, a defnyddir brics

yn achlysurol fel prif ddeunydd adeiladu'r waliau. Ar Gwaunfarren Road a Greenfield Terrace, ceir tai o fath, maint a chynllun amrywiol. Mae gan lawer o dai erddi blaen bach, rhai gyda manylion ffiniau da, yn cynnwys waliau brics melyn a therracotta.

Roedd Church Street yn rhan o anbeddiad gwreiddiol Penydarren (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Tai cyhoeddus cynnar ar Council Street (dde ac isod) (Hawlfraint y Goron: CBHC).





Uchod ar y chwith a'r dde: Filâu mawr ar Gwaelodygarth Road.

Tai teras ar Gawunfarren Road (Hawlfraint y Goron: CBHC).

*Tai teras mawr
ar Park Terrace
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



*Roedd rhan ogleddol
yr ardal hon yn ffafrio
tai maestrefol mawr
fel yr enghreifftiau
hyn yn Pentwyn
Villas (canol ac isaf)
(Hawlfraint y Goron:
CBHC).*



Yn y tai mwy o faint ar Haydn Terrace a Gwaunfarren Road ac yn yr ardal o amgylch The Walk a The Grove, gwelir arddulliau, deunyddiau a manylion amrywiol iawn. Maent yn cynnwys

cynlluniau amlwg iawn, fel parau gyda nodweddion ar fynedfeydd a rennir a thalcenni, ac enghreifftiau o orffeniadau rendr hynod. Ffaffriwyd calchfaen wedi'i threulio gan ddŵr fel cerrig copa ar waliau gerddi.



Roedd rhan ogleddol yr ardal hon yn ffafrio tai maestrefol mawr fel yr enghreifftiau hyn yn Pembroke Place (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Chwith: Addurn hynod mewn terracotta yn Pembroke Place (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Chwith pellaf: Cerrig copa calchfaen wedi'u treulio gan ddŵr ar Haydn Terrace (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Dde: Gwaith brics ar Lancaster Street: mae'r to bach parhaus dros y llawr gwaelod, waliau'r gerddi gyda phileri gatiâu a cherrig copa calchfaen wedi'u treulio gan ddiôr yn rhoi cymeriad cryf i'r rhes hon (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Rhwng Stuart Street — Cromwell Street — Tudor Terrace, The Walk a Gwaelodygarth Road, ceir amrywiaeth hynod o fathau o dai, gan ddechrau gyda thai teras cymharol ddinod ar y strydoedd isaf, ac yn gorffen gyda thai pâr sylweddol a therasau o filâu gyda gerddi yn yr ardal o amgylch West Grove (a adeiladwyd fel datblygiad ar wahân ar lain arall o dir). Tywodfaen Pennant yw'r prif ddeunydd adeiladu wal, ond defnyddiwyd rendr llyfn ar gyfer rhai tai ar Tudor Terrace, ynghyd â manylion architraf amlwg, a cheir terasau brics ar Lancaster Street. Nodir statws y datblygiadau tai hyn yn ôl ansawdd y manylion a'r gorffeniad, lle y maent wedi goroesi.



Uchod a dde uchod: Manylion nodedig ar dai ar Tudor Terrace (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde: Tai teras mwy ar Norman Terrace gyda gwaith maen llaww agored a waliau gerddi sy'n cydweddu (Hawlfraint y Goron: CBHC).

8. Georgetown ac Ynysfach

Cefndir Hanesyddol

Roedd gan yr ardal, a safai rhwng Gwaith Haearn Cyfarthfa a Gwaith Haearn Ynysfach (1801), ac a ffiniai ar un ochr â cheiau eang Camlas Morgannwg a'r dramffordd a gysylltai gwaith Ynysfach â'r gamlas, gysylltiad cryf â Chwmni Cyfarthfa. Fe'i hadeiladwyd ar dir a brydleswyd i William Crawshay a chafodd ei enwi ar ôl ei fab, George Crawshay. Roedd y datblygiadau cyntaf yma ar waith erbyn 1814, ac, erbyn 1836, roedd cynllun strydoedd ffurfiol wedi'i sefydlu i raddau helaeth. Felly, roedd yn enghraifft gynnar o ddatblygiad cynlluniedig, yn wahanol i lawer o'r aneddiadau cynharach, a oedd yn llinellol eu natur yn y bôn. Roedd anghydfod yn amlwg yn yr ardal, ac yma yr ymosodwyd ar y Llys Deisyfion yn ystod Gwrthryfel Merthyr yn 1831. Tafam y Three Horse Shoes oedd un o fannau cyfarfod y Siartwyr.

Datblygwyd Georgetown yn ddwys a chafodd enw drwg. Cafodd yr anheddiad ei glirio bron yn llwyr a'i ailddatblygu yn y 1970au, gan gadw elfennau o'r cynllun grid cynharach a rhan o linell y dramffordd o Waith Haearn Ynysfach i'r gamlas. Roedd tafam y Three Horse Shoes a'r tai cynnar ar hyd Chapel Row (tua 1825) ymysg yr adeiladau prin i oroesi'r gwaith ailddatblygu.

Defnyddiwyd capel a adeiladwyd tua 1805, a oedd yn gysylltiedig â Chapel Row, fel warws erbyn 1836 ac mae bellach yn adfail cyfunol.

Yn y cyfamser, i'r de a'r gorllewin o'r gwaith haearn, datblygwyd ardal domen a oedd yn gysylltiedig â gweithfeydd amrywiol ar ddaliad Cyfarthfa — rhwng yr A470 (ar safle Rheilffordd Gethin a'r Brecon and Merthyr Railway) a hen Waith Haearn Ynysfach — ar gyfer adeiladu tai yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Goroesodd y ffermydd yr arferai'r tir hwn fod yn gysylltiedig â hwy (Llwyn Celyn a Lower Wern) tan ganol yr ugeinfed ganrif.

Nodweddion Adeiladu

Prin oedd yr adeiladau a oroesodd y gwaith cynhwysfawr o ailddatblygu Georgetown, a ddechreuodd yn y 1960au. Ymysg yr eithriadau pwysig mae'r tai yn Chapel Row, sy'n fythynnod isel ffryntiad dwbl sy'n nodweddiadol o ddatblygiadau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, tafam y Three Horse Shoes ac adeilad yr hen Lys Deisyfion ar Dynevor Street.

Cafodd llinell y gamlas ei dileu, ac eithrio'r darn byr o flaen Chapel Row, lle cafodd pont haearn bwrw o Ryd y Car ei hadleoli yn y 1980au. Arferai storffeydd a wrysau fod ar y llain o dir rhwng y gamlas a'r afon, a gall y wal gynhaliol fawr i fyny'r afon o Bont Jackson fod yn etifeddiaeth o'r defnydd cynharach hwn o'r tir.

Yn Ynysfach, mae olion y ffwrmeisi a'r tŷ injan yn enghraifft bwysig o gyfadeilad waith haearn sydd wedi goroesi. Mae'r tŷ injan yn enghraifft wych o bensaerniaeth ddiwydiannol. Fe'i hadeiladwyd



Chapel Row: tai cynnar, prin sydd wedi goroesi yn Georgetown (Hawlfraint y Goron: CBHC).

yn 1836, ac mae ansawdd y gorffeniad yn ogystal â'i faint yn dangos gwerth y fenter wreiddiol. Ceir datblygiad tai hapfasnachol y tu ôl iddo mewn cyfres o glystyrau.

9. Gorllewin Merthyr, yn cynnwys Heolgerrig a Gellideg

Cefndir Hanesyddol

Roedd llawer o'r tir i'r gorllewin o afon Taf o fewn y brydles wreiddiol ar gyfer Gwaith Haeam Cyfarthfa, ac yn rhan o'r dirwedd gloddiol a oedd yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r gwaith haeam yng Nghyfarthfa ac Ynysfach. O fewn yr ardal hon ceir olion gweithfeydd mwynau eang gyda'u systemau rheoli dŵr a thrafnidiaeth cysylltiedig. Roedd dau lwybr yn croesi'r darn hwn o dir, yn Heolgerrig a Gellideg, lle gwelwyd datblygiadau tai cynnar. Roedd y llwybrau hyn hefyd yn rhan o'r cnewyllyn ar gyfer datblygiadau tai ehangach yn yr ugeinfed ganrif, y cafodd rhai ohonynt eu datblygu ar ardaloedd o hen weithfeydd diwydiannol. Gyda'r eithriadau hyn, mae'r rhan fwyaf o'r ardal hon wedi goroesi fel tirwedd gloddiol sydd wedi'i chadw'n dda, gan gynnwys nodweddion sy'n cwmparu'r cyfnod, o gychwyn gwaith haeam ym Merthyr Tudful i gau'r gwaith haeam a thu hwnt. Ymysg y nodweddion hyn mae safleoedd clytio a sgwrio glo a haeamfaen, a gweithfeydd cloddio

dwfn gan ddefnyddio siafftau. Ceir digonedd o dystiolaeth o brosesau rheoli dŵr a llwybrau trafndiaeth hefyd, yn cynnwys y rhan o Gamlas Cyfarthfa sydd wedi goroesi, llinellau incleinau, rheilffyrdd a thramffyrdd.

Nodweddion Adeiladu

Ffermdir oedd yr ardal hon yn wreiddiol, ac erys pocedi ohono o hyd. Yng Ngellideg, mae ffermdy cynnar wedi goroesi, a gafodd ei addasu a'i ehangu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i greu rhes o fythynnod diwydiannol. Yn Heolgerrig, Miners Row yw un o'r terasau pwrpasol cynharaf o dai gweithwyr diwydiannol sydd wedi goroesi, gan ddangos yn glir y modd yr addaswyd traddodiadau adeiladu gwledig at ddibenion newydd.

Mae'n debyg y dechreuodd datblygiad llinellol yn Heolgerrig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel tai teras, ond prin yw'r manylion sydd wedi goroesi, os o gwbl. I'r de, dechreuodd Brondeg fel tai cyngor yn y 1920au gyda chynllun agored o dai pâr. I'r gogledd, mae ystad Six Bells yn ddatblygiad preifat o fyngalos yn bennaf. Mae Shirley Gardens hefyd yn ddatblygiad preifat o'r 1970au.

Tai cyhoeddus sy'n dyddio o'r 1950au a geir yng Ngellideg yn bennaf, sy'n nodweddiadol o'r cyfnod gyda chynllun pictiwrésg a chryn amrywiaeth gweledol yn y cyfuniad a'r grwpio gofalus o dai a fflatiau bach mewn lleoliad wedi'i dirwedu.

Isod: Dechreuodd y rhes hon o fythynnod yng Ngellideg fel ffermdy o'r emw Tŷ Issa (© Hawlfraint y Goron (2015): Cadw, Llywodraeth Cymru).

Dde pellaf isod: Tai cyngor yn Heolgerrig (Hawlfraint y Goron: CBHC).



Datganiad Pwysigrwydd

Merthyr Tudful oedd y dref fwyaf yng Nghymru, ond hi hefyd oedd prifddinas haearn a dur y byd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁵⁸ Yma y mynegwyd y chwyldro diwydiannol, yr oedd cynhyrchu haearn ar raddfa fawr yn ganolog iddo, ar ei fwyaf cyflawn, drwy greu tirwedd a ffordd o fyw ddiwydiannol. Yma, ynghyd â thirwedd ddiwydiannol integredig, gwelwyd hefyd economi a chymdeithas drefol gymhleth. Yn dilyn y cwmpas economaidd, a ddaeth yn sgil dirywiad y diwydiant haearn a'r mentrau oedd yn gysylltiedig ag ef yn yr ugeinfed ganrif, amharodd y gwaith ailddatblygu ar etifeddiaeth yr hanes balch hwn. Fodd bynnag, ceir treftadaeth ddiwydiannol gref ym Merthyr Tudful o hyd, yn enwedig y diwylliant trefol a grëwyd.

Y safleoedd diwydiannol mawr oedd prif nodweddion y dirwedd ar un adeg, ac mae'r rhai sydd wedi goroesi, er eu bod wedi'u hesgeuluso, yn drawiadol o hyd. Mae cryn dipyn o'r dirwedd gloddiol sy'n gysylltiedig â Gwaith Haearn Cyfarthfa wedi goroesi i'r gorllewin o afon Taf, a cheir damau o dirweddau tebyg mewn mannau eraill. Mae Castell Cyfarthfa yn atgof pwysig o'r cyfoeth anhygoel a grëwyd gan haearn. Er gwaethaf y colledion, mae'r treflun ei hun yn syndod o gyfoethog. Mae'n cwmpasu traddodiadau nodedig adeiladu tai, o'r rhesi o fythynnod diwydiannol cynnar i filâu a datblygiadau tai maestrefol o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cwmpasu dros gan mlynedd o ehangu trefol uchelgeisiol a sefydlu cymdeithas ddiwydiannol drefol amrywiol. Er gwaethaf rhywfaint o waith ailddatblygu, ceir pensaernïaeth ddinesig a masnachol o ansawdd rhyfeddol yng nghanol y dref o hyd.

Yn hanesyddol, cafodd yr elfennau hyn o'r dirwedd ddiwydiannol drefol eu hintegreiddio'n dda. Roedd rhwydwaith o linellau trafnidiaeth a chyflenwi yn ôl ac ymlaen i'r gweithfeydd haearn a safleoedd diwydiannol eraill, a darparodd rhai ohonynt fframwaith ar gyfer anheddu. Adeiladwyd ardaloedd preswyl yn wreiddiol mewn perthynas â mentrau unigol, pob un â'i chymeriad nodedig ei hun a'i rôl ym mywyd y dref, gan rannu ffocws ar ganol y dref wrth iddo ddatblygu i fod yn brif ganolfan ddinesig, ddiwydiannol a masnachol.

Bellach, mae'r safleoedd diwydiannol wedi cael eu gwtio i'r cyrion; mae'r llwybrau trafnidiaeth hanesyddol wedi cael eu torri, eu hesgeuluso neu eu defnyddio i adeiladu drostynt; mae ardaloedd anheddu hanesyddol a rhai adeiladau allweddol wedi cael eu gadael yn wag. Ond mae gweithgarwch adfywio eisoes wedi dechrau canolbwyntio ar y gwaith o adnewyddu ac ailsefydlu llwybrau a llinellau cyflenwi hanesyddol, ar y treflun ac ar rai o'r prif adeiladau. Mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod cymeriad integredig a rhyngddibynnol y dirwedd ddiwydiannol drefol ddigryffelyb hon, sy'n cwmpasu safleoedd diwydiannol, llwybrau, ac ardaloedd preswyl a masnachol, er mwyn cyflawni potensial Merthyr Tudful i fod yn un o'r trefi diwydiannol mwyaf hynod yng Nghymru unwaith eto.

Ffynonellau Dethol

- Anhysbys., *Merthyr Tydfil Illustrated: A Descriptive Account of Merthyr* (Brighton, 1893).
- T. E. Clarke, *A Guide to Merthyr Tydfil* (Llundain, 1848).
- Charles Frederick Cliffe, *The Book of South Wales, the Bristol Channel, Monmouthshire and the Wye* (Llundain, 1847).
- Richard Crawshay, *The Letterbook of Richard Crawshay 1788–1797* (Caerdydd, 1990).
- John Davies, *A History of Wales* (Harmondsworth, 1993).
- John Davies a Jana Horák, 'Building Stone Use in the Brecon Beacons National Park, Amgueddfa Cymru — National Museum Wales Report' (Heb ei gyhoeddi; Caerdydd, 2009).
- Leo Davies, 'The Dowlais Railway or "Incline"', *Merthyr Historian*, Cyf. 8 (Merthyr Tudful, 1996).
- W. L. Davies, *Bridges of Merthyr Tydfil* (Caerdydd, 1992).
- A. Trystan Edwards, *Merthyr, Rhondda and The Valleys* (Llundain, 1958).
- Diane Green, 'Housing in Merthyr Tydfil', *Merthyr Historian*, Cyf. 2 (Merthyr Tudful, 1978).
- Richard Hayman, *Working Iron in Merthyr Tydfil* (Merthyr Tudful, 1989).
- J. B. Hilling, 'The Buildings of Merthyr Tydfil', *Glamorgan Historian*, Cyf. 8 (Y Barri, 1972).
- Laurence Ince, *The South Wales Iron Industry 1750–1885* (Gorllewin Canolbarth Lloegr, 1993).
- Arthur H. John (gol.), *Glamorgan County History, Vol. V: Industrial Glamorgan from 1700–1970* (Caerdydd, 1980).
- Benjamin Malkin, *The Scenery, Antiquities and Biography of South Wales* (Llundain, 1804; ailargraffiad Wakefield, 1970).
- Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
- Alun Morgan, 'Earning a Living: Industrial Development 1918–1939' *Merthyr Historian*, Cyf. 2 (Merthyr Tudful, 1978).
- John Newman, *The Buildings of Wales: Glamorgan* (Llundain, 1995).
- Paul O'Leary, *Claiming the Streets: Processions and Urban Culture in South Wales, c.1830–80* (Caerdydd, 2012).
- Paul O'Leary, 'Mass commodity culture and identity: the *Morning Chronicle* and Irish migrants in a Welsh nineteenth-century town' *Urban History*, 35 2 (2008), 237–54.
- John Owen, 'Merthyr Tydfil Industrial Development, 1870–1914', *Merthyr Historian*, Cyf. 2 (Merthyr Tudful, 1978).
- Gordon Rattenbury, 'Merthyr Tydfil Tramroads and Their Locomotives', *Merthyr Historian*, Cyf. 7 (Merthyr Tudful, 1994).
- Isaac Slater, *Slater's Royal National and Commercial Directory and Topography of the Counties of Gloucester, Hereford, Monmouth and Shropshire, and North and South Wales* (Llundain, 1868).
- Eira Smith, 'Tumpikes and Toll Gates', yn Huw Williams (gol.), *Merthyr Tydfil: Drawn from Life* (Merthyr Tudful, 1981).
- Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
- Charles Wilkins, *The History of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tudful, 1867).


Ôl-nodion

1. Isaac Slater, *Slater's Royal National and Commercial Directory and Topography of the Counties of Gloucester, Hereford, Monmouth, Shropshire, and North and South Wales* (Llundain, 1868).
2. J. B. Hilling, 'The Buildings of Merthyr Tydfil', *Glamorgan Historian*, Cyf. 8 (Y Barri, 1972); Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
3. Charles Wilkins, *The History of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tudful, 1867).
4. Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
5. Ibid.
6. Charles Wilkins, *The History of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tudful, 1867).
7. Ibid.
8. F. J. Pedler, *History of the Hamlet of Gellideg* (Merthyr Tudful, 1930).
9. Charles Wilkins, *The History of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tudful, 1867).
10. Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
11. John Davies, *A History of Wales* (Harmondsworth, 1993).
12. Charles Wilkins, *The History of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tudful, 1867).
13. Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
14. Richard Crawshay, *The Letterbook of Richard Crawshay 1788–1797* (Caerdydd, 1990).
15. Laurence Ince, *The South Wales Iron Industry 1750–1885* (Gorllewin Canolbarth Lloegr, 1993); Arthur H. John (gol.), *Glamorgan County History, Vol. V: Industrial Glamorgan, from 1700–1970* (Caerdydd, 1980).
16. A. Trystan Edwards, *Merthyr, Rhondda and 'The Valleys'* (Llundain, 1958).
17. Arthur H. John (gol.), *Glamorgan County History, Vol. V: Industrial Glamorgan, from 1700–1970* (Caerdydd, 1980).
18. Charles Frederick Cliffe, *The Book of South Wales, The Bristol Channel, Monmouthshire and the Wye* (Llundain, 1847).
19. John Owen, 'Merthyr Tydfil Industrial Development, 1870–1914', *Merthyr Historian*, Cyf. 2 (Merthyr Tudful, 1978).
20. Isaac Slater, *Slater's Royal National and Commercial Directory and Topography of the Counties of Gloucester, Hereford, Monmouth, Shropshire, and North and South Wales* (Llundain, 1868).
21. W. L. Davies, *Bridges of Merthyr Tydfil* (Caerdydd, 1992); Eira Smith, 'Turnpikes and Toll Gates', yn Huw Williams (gol.), *Merthyr Tydfil: Drawn from Life* (Merthyr Tudful, 1981).
22. Gordon Rattenbury, 'Merthyr Tydfil Tramroads and Their Locomotives', *Merthyr Historian*, Cyf. 7 (Merthyr Tudful, 1994).
23. Ibid.
24. Arthur H. John, (gol.), *Glamorgan County History, Vol. V: Industrial Glamorgan, from 1700–1970* (Caerdydd, 1980); Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
25. Leo Davies, 'The Dowlais Railway and Incline', *Merthyr Historian*, Cyf. 8 (Merthyr Tudful, 1996).

26. Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
27. Benjamin Malkin, *The Scenery, Antiquities and Biography of South Wales* (Llundain 1804; ailargraffiad Wakefield, 1970).
28. Charles Frederick Cliffe, *The Book of South Wales, The Bristol Channel, Monmouthshire and the Wye* (Llundain, 1847).
29. T. E. Clarke, *A Guide to Merthyr Tydfil* (Llundain, 1848).
30. Arthur H. John (gol.), *Glamorgan County History, Vol. V: Industrial Glamorgan, from 1700–1970* (Caerdydd, 1980).
31. Benjamin Malkin, *The Scenery, Antiquities and Biography of South Wales* (Llundain 1804; ailargraffiad Wakefield, 1970).
32. Charles Frederick Cliffe, *The Book of South Wales, The Bristol Channel, Monmouthshire and the Wye* (Llundain, 1847).
33. Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
34. Benjamin Malkin, *The Scenery, Antiquities and Biography of South Wales* (Llundain 1804; ailargraffiad Wakefield, 1970).
35. Lugar, pensaer Castell Cyfarthfa, dyfynnwyd yn J. B. Hilling, 'The Buildings of Merthyr Tydfil', *Glamorgan Historian*, Cyf. 8 (Y Barri, 1972).
36. Benjamin Malkin, *The Scenery, Antiquities and Biography of South Wales* (Llundain 1804; ailargraffiad Wakefield, 1970).
37. T. E. Clarke, *A Guide to Merthyr Tydfil* (Llundain, 1848).
38. Paul O'Leary, 'Mass commodity culture and identity: the *Morning Chronicle* and Irish migrants in a Welsh nineteenth-century town' *Urban History*, 35 2 (2008), 237–54.
39. Anhysbys, *Merthyr Tydfil Illustrated: A Descriptive Account of Merthyr* (Brighton, 1893).
40. John Davies, *A History of Wales* (Harmondsworth, 1993); gwybodaeth gan Carolyn Jacob, *Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful*.
41. Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
42. A. Trystan Edwards, *Merthyr, Rhondda and 'The Valleys'* (Llundain, 1958).
43. Ibid.
44. Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
45. Ibid.; Alun Morgan, 'Earning a Living: Industrial Development 1918–1939' *Merthyr Historian*, Cyf. 2 (Merthyr Tudful, 1978).
46. A. Trystan Edwards, *Merthyr, Rhondda and 'The Valleys'* (Llundain, 1958); Grŵp Canolfan Athrawon Merthyr, *Merthyr Tydfil: A Valley Community* (Y Bont-faen, 1981).
47. T. E. Clarke, *A Guide to Merthyr Tydfil* (Llundain, 1848).
48. Ibid.
49. Gwybodaeth gan Carolyn Jacob, *Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful*.
50. Arthur H. John (gol.), *Glamorgan County History, Vol. V: Industrial Glamorgan, from 1700–1970* (Caerdydd, 1980); Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
51. T. E. Clarke, *A Guide to Merthyr Tydfil* (Llundain, 1848).
52. *The Morning Chronicle*, 180, dyfynnwyd yn Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).


53. Dyfynnwyd yn Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
54. Keith Strange, *Merthyr Tydfil Iron Metropolis: Life in a Welsh Industrial Town* (Stroud, 2005).
55. Ibid.
56. Wirt Sikes, *Rambles and Studies in Old South Wales* (Llundain, 1881).
57. A. Trystan Edwards, *Merthyr, Rhondda and 'The Valleys'* (Llundain, 1958).
58. Peter Sager, *Wales* (Llundain, 2002).

I Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau'r Amgylchedd Hanesyddol




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017914 (2014).
 Atgysbhyrddir y map hon o ddiwydd ym Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar rai Rheolwr Llyfrfa Eri Hanesyddol © Hanesyddol y Goron. Mae atgysbhyrddir hys ganiatâd yn torri Hawlfraint y Goron a gall hys arwain at erlyriad neu achos afl. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017914 (2014).


2 Pob Ardal â Nodweddion



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017916 (2014).
 Agreirychdir y map hwn o ddiwyddiadau Ordnance Survey gyda chaniatâd Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Eidd Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae agreirychdir heb ganiatâd yn torri Hawlfraint y Goron a eidd hwn arwain at arbediad neu arhys cill Llofnodwrach Cymru. Rhif Trwyddodi: 100017916 (2014).




5 Twynyrodyn, yn cynnwys Ysgubor Newydd a Phenyrrheol (3)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017916 (2014).
 Aegynhyrdd y map hon o ddiwydd y'r Arswyd Ordnance yn rhan Rheolwr Llywodraeth y Merthyr Tudful © Hawlfraint y Goron. Mae aegynhyrdd hon gniatid yn rannu Hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sfil. Llywodraeth Cymru. Rhyd Twpdd: 100017916 (2014).

6 I'r De o Ganol y Dref: Ardal Plymouth Street (4)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government. Licence Number: 100017916 (2014).
 Agyblyddir y map hwn o ddiarydd yn Arrolwg Ordnance gyda chaniatâd Arrolwg Ordnance a'r Rhoelwr Uffwr. El Mawrtyddi © Hawlfraidi y Goron. Mae aglyblyddir hwn ganatâd yn darri Hawlfraidi y Goron a gull hwn arwain se arfriad neu achos uffr. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2014).

7 Cyfarthfa: Parc a Gwaith Haeam (5)




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government, Licence Number: 100017916 (2014).
 Aggrhyddir y map hwn o ddiwydiol yr Arloeg Ordnance gyda chaniatâd Arloeg Ordnance ar ran Rhodri Llyfêr Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae signifirch hys ganiatâd yn tiri Hwffraint y Goron a gyl hyn arwain at orlymad neu schos all. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2014).


8 Williamstown, Cae Pant Tywyll a Morgantown (6)



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government. Licence Number: 100017916 (2014).
 Atgynhyrchu y map hon o ddiagram Ordnance gyda chanddiad Ordnance ar ran Rheolwr Llyfrs Eri Mawrlyd © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri Hawlfraint y Goron a gall llyw arwain at erlydd neu achos llyfr. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2014).



II Gorllewin Merthyr, yn cynnwys Heolgerrig a Gellideg (9)



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government Licence Number: 100017916 (2014).

Aggylhyrddir y map hon o ddeunydd yr Arloeg Ordnans gyda chaniatâd Arloeg Ordnans ar rai Rheolwr Llyfrfa E: Haulfryn © Haulfryn y Goron. Mae aggylhyrddu hys ganiatâd yn tarru Haulfryn y Goron a gall hys arwain at erlyriad neu achos aflil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100017916 (2014).